

Enwau Lleoedd
Cemais a Mawddwy
Melin Goegen
Nant Yr Halen
Bwlch Siglen
Gwelu Tydecho
Llyn Ladis
Stylcie
Ffridd Yr Arglwydd
Dol y Gas
Graig y Gronfa
Llyn Cesyg
Castell Bach
Clipiau Draw
Abercydidill
Ebrandy
Gallt Ceiniogau
Clygo
Llyn Garreg Fraeth
Rhyd y Pebyll
Waen y Gath
Cae Ceiliogau
Pont Ar Wrisgen
Minllyn
Cae Cwpan a Soser
Mallwyd
Llanerch
Cwmllinau
Gwyndaf Breese

# Enwau Lleoedd Mawddwy

Fe ddywedodd rhyw ysgolhaig un tro mae dim ond ffyliaid oedd yn ymddiddori mewn enwau lleoedd,ac os oes gronyn o wirionedd yn hyn yna mae nifer fawr o lenorion digon gwirion yn pori yn y maes erbyn hyn.Credir fod gymaint o ddulliau o egluro, ac olrhain cefndir enwau bellach, fel bod lle i bawb sydd a diddordeb yn y pwnc ei dadansoddi fel y mynnent,hen ddilyn unrhyw reolau pendant.

Rhywbeth cymharol ddiweddar yw nodi a cheisio egluro yr amrywiaeth o enwau a geir ar hyd a lled Cymru,ac erbyn heddiw rhoddir llawer o bwyslais ar gyfieithu i'r Saesneg yn llythrenol, heb ymdrechu i egluro yr enw gwreiddiol.Diau bod hyn o ddiddordeb i'r miloedd o ymwelwyr sydd yn dod am wyliau i wlad ble y mae y brodorion, yn ei tyb hwy, yn siarad 'rhyw hen iaith od',and yn ddiweddar y mae llawer mwy o'r Cymru Cymraeg yn ymwybodol o bwysigwrwydd enwau lleoedd fel rhan o ddiwilliant gwerin.

Ni chymerwyd rhyw lawer o ddiddordeb yn y pwnc tan tua diwedd yr 19 ganrif,ac un o'r cyfrolau cynharaf oedd llyfr Thomas Morgan, 'The origin of place names in Wales',(1887) a themlodd yr awdr ei bod yn ddigon pwysig i'w chyflwyno i'r enwog William Gladstone.Fe ddaeth cyfrol Gymraeg ar y pwnc 'Enwau lleoedd Cymru' o'r wasg yn 1908,ac yn 1915 yr oedd llyfr James Johnson,'Place names of England and Wales',yn gyfrol o dros pum cant o dudalennau.

Erbyn dechrau yr 20 ganrif yr oedd gymaint o ddiddordeb yn y pwnc i ofyn am gasgliadau o enwau mewn eisteddfodau lleol, a chafwyd ymateb sylweddol ar gyfer Eisteddfod Tywyn yn 1907.

Erbyn y pedwar degau yr oedd ysgolheigion fel Syr Ifor Williams yn arbenigwyr ar Enwau Lleoedd,a gwelwyd colofn yn trafod y pwnc yn y 'Cymro' am rai misoedd.Fel yr oedd y diddordeb yn treiddio i gefn gwlad gwelwyd ymchwilwyr brwydfrydig fel Bedwyr Lewis Jones, a Gwynedd Pierce yn darlithio yn eang, tra yr oedd eraill yn canolbwyntio ar ardaloedd arbennig, ac yn cyhoeddi ei hymrechion,rhai yn lyfrynnau bychain ac eraill yn waith ysgolheigaedd swmpus..

Erbyn heddiw y mae casglu, a chyfnodi, enwau o bob math yn boblogaedd iawn mewn nifer o ardaloedd gwledig.Er fod enwau lleoedd adnabyddus yn debygol o barhau ar gôf a chadw,y mae perygl y bydd y rhai a gadwyd ar lafar yn unig yn cael ei colli, os nad ydynt eisoes wedi mynd yn anghof.

Y garfan mwyaf brwdfrydig sydd yn ymdrechu i nodi enawu ei hardal yw yr haneswyr lleol.Nid oes gymaint o bwyslais ar hyn o bryd i geisio egluro tarddiad yr enwau, ond y mae yn hanfodol ei bod ar ddu a gwyn ar gyfer y dyfodol.

Y mae yr hen enwau hyn yn tarddu o'r Canol Oesoedd yn bur aml, ond ar ôl canrifoedd o gam-sillafu gan gleigwyr o Saeson ,wedi newid yn sylweddol ar hyd y blynyddoedd.Mewn ardal fel Mawddwy, er engraift, a oedd bron yn cyfangwbl yn uniaith Gymreig hyd at ddechrau yr 20 ganrif, y mae yr amrywiath o sillafu sawl cenhedlaeth o glercod Sesiwn Chwarter, rheithoriaid, teithwyr,a gwneuthurwyr mapiau yn astydiath ddiddorol ynddo ei hyn.Ceir hyd at ddeg a wahanol ddulliau o sillhafu y gair Mawddwy.

Y mae hyd yn oed y Cymru Cymraeg mwyaf deallgar yn aml yn cael trafferth i ddadansoddi canrifoedd o gam-drin yr iaith, ac yn gorfod troi at arbenigwyr o ysgolheigion i gael eglurhâd ar nifer fawr o enwau lleoedd.Ni ddylid rhoi y bai am lygru enwau yn gyfangwbl ar y Saeson,ar hyd y blynyddoedd y mae tafodiaeth,a'n dull o siarad a thalfyrnu geiriau a newid llythrennau, wedi cyfrannu yn helaeth at y newid

a geir yn yr enwau sydd yn bodoli heddiw.
Un or dogfennau cynharaf sydd yn nodi enwau ffermydd a thyddynod Mawddwy yw Dogfen Rhent y Faenoriaeth yn dyddio o 1787,a welir yn llyfr Thomas Davies, Hanes Dinas Mawddwy, (1893)Erbyn cyfnod y Degwm yr oedd llawer or tyddynod bychain wedi ei hyno, ac er bod ei lleoliad bellach yn ansicr,y mae ei henwau o hyd ar gôf a chadw.
Y lleoedd cyntaf i chwlota tarddiad enwau yr hen ddogfennau, ond nid yw y rhain o fewn cyrraedd,nag yn ddarllenadwy i'r mwyafrif o haneswyr lleol, gan fod y llawysgrifen yn eithriadol o aneglyr ac yn aml wedi ei cyfnodi yn Lladin.Un o'r rhain yw 'Llyfr John Brook o Fawddwy',yn y Llyfgell Genhedlaethol, sydd yn gymysgedd o Ladin a Saesneg,ond yn faes digon ffrwythlon i'r sawl sydd a'r amser a'r gallu i bori drwyddo
Erbyn diwedd yr 17 ganrif yr oedd mapiau yn dechrau ymddangos,ond ar raddfa fach iawn, ac nid oedd  unrhyw hen fap Stâd o Fawddwy yn bodoli tan y Degwm yn 1840.Ni ddaeth mapiau yr Ordnans ar raddfa chwe modfedd i'r filltir allan tan yr 1870au, er mae ychydig iawn o newid a geir yn yr enwau yn ail-gfres yn 1901.Ni ddylid beio yr Ordnans os yw yr enwau a nodir ar ei mapiau yn wahanol i'r rhai ar lafar gwlad, gan ei bod yn barod i newid unrhyw un sydd yn anghywir yn y gyfres nesaf os bydd sail bendant i hyn.Y gwirionedd yw nad oedd neb o gefn gwlad Cymru, er i ddigon barod i gwyno bod enwau anghywir ar fapiau swyddogol ,ddim yn trafferthu i ddod a hyn ger bron y cyhoeddwyr.
Nid yw mapiau Degwm Llanymawddwy a Mallwyd yn nodi enwau caeau,a gresyn am hyn,ond fe'i ceir ar un Cemais.Y mae yn bwysig iawn felly nodi gymaint o enwau caeau ,cymoedd,a chreigiau Mawddwy cyn i'r cyfan fynd yn anghof.Yr un mor bwysig yw enwau nentydd a llynoedd yr afonydd, ac y mae yn bur debyg ein bod wedi gadael hi yn rhy hwyr mewn llawer i le.
Y mae enwau lleoedd a nodir yma yn disgyn i'r dosbarthiadau hyn,
Trefgordd,Cwmwd,a Phentrefi.
Mynyddoedd,Bryniau,Creigiau,a Dyffrynoedd.
Nentydd, Afonydd,a Llynoedd.
Caeau,a Choedwigoedd.
Fermydd a Thyddynod.
Nid oes hyd yma gyfrol wedi ei chyhoeddi ar enwau lleoedd Mawddwy yn arbennig, na Bro Ddyfi yn gyffredinol,ag eithro cyfrol ddiweddar Iwan Arfon Jones,Enwau Eryri, sydd yn trafod rhai yn ardal yr Aran.  Nid wyf yn honni fy mod yn ddigon o arbenigwr ar y pwnc i fentro dehongli tarddiad ac ystyr bob un o'r rhai a nodir yma, a prif bwrpas yr ysgrif hon, felly, yw nodi, yn hytrach na cheisio egluro tarddiad
Y mae yn syndod gymaint y mae lliwiau wedi dylanwadu ar enwau lleoedd, yn arbennig gwyn a du.Gall du gyfeirio at berson o bryd tywyll, fel Amwn-Ddu, ac un tro yr oedd rhai o'r farn mae tarddiad Dinas Mawddwy oedd 'Dinas Amwn-Ddu'.Gan amlaf y mae du yn cyfeirio at le oeraedd a digysur, fel Clipiau Duon uwchben Pennant, Esgair Ddu, Ty Du, a Hendre Ddu,ble ni welwyd yr haul am bron i chwe mis y flwyddyn.Lle cysgodol di-haul hefyd oedd tyddyn fel Pant Tywyll.
Yn hollow i'r gwyrthwyneb yn mae Gwyn yn cyfeirio at le prydferth a heulog,a defnyddiwyd yr ymadrodd yn yr hen amser pan yn cyfeirio at burdeb gwedd.Ceir nifer o enwau fel Ty Gwyn, Cefn Gwyn, a Llechwedd Gwyn, ond y mae yn bur debyg gweithiennau o wenithfaen wen oedd yn gyfrfol am yr enw Craig Wen yn Cerist.
Y mae y gwrthgyferbyniad yn amlwg yng ngwm Angell ble y ceir Cefn Gwyn ag Allt

Ddu o fewn ergyd carreg i'w gilydd.
Rhwybeth rhwng y ddau le fyddai Llechwedd Llwyd, Cwm Mynach, Cwm Llwydo, a nant Llwydo y cyfeirir atynt mewn hen ddogfennau fel y ffin rhwng Dyfi a Dulais.Darn o dir yn gwynebu y dwyrain ar olaf i ddechrau magu croen yn y gwanwyn of Cae Llwyd, Llandybo.Y mae enw Mallwyd yn tarddu o 'Maen Llwyd',neu fel y crêd rhai 'Maes Llwyd'.
Ceir nifer o enwau yn cynnwys y lliw Glas ac y mae hwn wedi creu pembleth i lawer hyd nes y cofir mae 'glas' oedd yr hen enw Cymreig am borfa, sef y 'gwellt glas'.Gwyr pawb,wrth gwrs,mae a gair yn y dafodiaeth leol yw 'gwesglas'.Ceir Pant Glas, Maes Glas, Buarth Glas, a chodwyd fy nghartref,Cae Glas, ar leoliad hen Dŷ Unos a oedd a 'chae glas' wedi ei gau o'r comin o'i amgylch.
Ychydg yn anoddach yw egluro dylanwad melyn, a phur anhebyg bod Braich Melyn ar yr ucheldir uwchben Cerist,a Llechwedd Melyn, Cwm Angell, erioed wedi tyfu cnwd o haidd neu gerch melyn.Y mae yn fwy tebygol mae cyfeirio at liw y rhosdir pan oedd yr haul yn tywynnu arno yn yr hydref y mae melyn yn y cyswllt yma.
Y mae enwau fel Fron Goch a Brithdir Coch yn debygol o gyfeirio at 'dir coch' yr ucheldir, fel y mae y cyfeiriad at 'Lif Coch Awst' pan fydd dwr yr afonydd yn llwydaidd o bridd y mynyddoedd ar ôl llifogydd.
Y mae disgrifiad o bersonau dynol hefyd yn darddiad i nifer o enwau, pwy tybed oedd yr 'Igi' a roddodd ei enw i Pennantigi, ond gwyddom ychydig yn fwy am y cymeriad hwnnw, Llewelyn Goch,a adawodd ei enw ar lwybr a nant, a'r gŵr a oedd yn berchen ar Dyddyn Wilcoc.Er fod 'cae banadl'yn enw digon cyffredin, llygru i'r Saesneg fy hanes Broomfield a roddodd enw digon anghyffredin i'r bardd Mathew Broomfield.
Ceir enwau yn seiliedig ar ddigwyddiadau hanesyddol, gwyr pawb am Rhiw Saeson yn ardal Llanbrynmair,er nad oes neb yn sicr beth oedd y cysylltiad,os nad y frwydr yn erbyn y Saeson ganrifoedd yn ôl.O fewn ffiniau Mawddwy cofir am Cae'r Gôf,Bryn Cleifion, Y Ddalfa, a Moel y Wylfa,a gellir enwi llawer rhagor.
Y mae bron bob agwedd o fywyd gwerin wedi dylanwadu ar yr enwau sydd mor adnabyddus i ni bellach.Ceisiaf restri y rhai mwyaf diddorol, a rwyn siwr y bydd y darllenydd yn barod iawn i uchwanegu at y casgliad.

Lewis Gwyndaf Breese
2014

# Mynyddoedd,Bryniau, a Bylchoedd

Aran Fawddwy
Dyma prif fynydd Mawddwy ac yn yr amser a fu fe aeth bechgyn lleol ati i godi pentwr o gerrig ar ei gopa gan y credwyd ei fod yn llai o ychder na Chader Idris.Gwastraff egni oedd y cyfan fel y gwyddom heddiw gan fod yr Aran nifer o droedfeddi yn uwch na'r Gader.Hen enw ar le garw uchel a chreigiog yw 'Aran'.Daw o'r hen Geltaedd 'arani, arandis, aranus'.

Dyrysgol.
Y bwlch rhwng Blaencywarch a tharddiad y Ddyfi .Llygriad o 'yr ysgol', ond tarddiad y gair yw 'isgolion',neu 'isgol', sef darn o graig sydd yn gwhannu dau gwm. Gelwid 'isgolion' hefyd ar ddarnau o gerrig a osodwyd fel ffin i rannu tiroedd neu borfeudd ar fynydd agored.Ceir hefyd 'nant Ysgolion' ar fynydd Trannog, Llanbrynmair.

Foel Clochydd.
Bryn llwm ond heb fod yn rhy greigiog yw bron pob 'Foel'. Nis gwyddom pa gysylltiad oedd gan rhyw glochydd ar bryn hwn ym Mlaenpennant.

Moel Benddin.
Er fod rhai o'r farn ei fod yn edrych fel cornwyd, neu 'ben ddyn', y mae yn fwy tebygol mae o'r Lladin 'Dinum', Pen y Ddinas, neu 'Bryn y Beddau', y daw y gair.Tua chanrif yn ôl yr oedd gweddillion hen feddau, neu amddiffynfa i'w gweld yma.

Moel Dinas.
Enw arall arno yw Moel y Dre.

Foel Fallwyd.
Ceir dyfrliw o waith yr arlunydd Ibbotson o gario mawn lawr ei lethrau.

Foel Hafod Fynydd
Gwelir gweiddillion 'hafod y mynydd' yn y crancwellt ar lan yr afon Ddyfi.

Moel y Wylfa.
Enw arall a oedd ar lafar yn unig sydd erbyn hyn yn angof.Y mae lle i gredu bod gwylfa ar yr ucheldir uwcheb Graig y Gamell amser maith yn ôl.

Foel Gordd.
Ni welwyd yr enw hwn am y bryn uwchben Cerddin,Llanymawddwy, ar fapiau eroed.Ni wyddom a oedd cysylltiad a 'gordd',efallai iddo gael yr enw oherwydd ei debygrwydd i'r offer defnyddiol hon.Nid yw amhosibl fodd bynnag fod yr enw yn tarddu o 'Foel y Drefgor'.

Foel y Ffridd.,
Darn o dir wedi ei gau o fynydd agored yw 'Ffridd', a ceir ef yn bur aml fel rhan o enw adeilad neu fferm sydd yn ei hawlio.Perthyn i diroedd enfawr Gartheiniog, Cwm Angell, oedd hon ,ar tyddyn o'r un enw, er yn ddiweddarach dim on 'Ffridd' oedd yr enw arno.

Ffridd yr Arglwydd
Gan mae 'Ffordd y Drefgor' oedd yr enw ar y llwybr yn arwaini i'r cyfeiriad yma drwy ddilyn Nant Maes Gamfa, y mae lle i gredu mae y llecyn hwn oedd prif ganolfan Cwm Angell mewn cyfnod a fu. Pwy tybed oedd yr Arglwydd a oedd berchen i Ffridd hon, a oes hefyd cysylltiad a nodi caethweision a 'Nant y Nôd' gerllaw.

Cefn Llandybo.
Cefnen o dir a olygir yma, a enwir hwn ar ôl Tybiawn, un o feibion Cunedda Wledig.At 'Dap Hen Eglwys' yn y Canol Oesoedd yr oedd eglwys 'Llandybo'.

Cae Afon.

Gwastadedd o dir uwchben Maesglase a Chwm Angell. Cae Hafod mae'n siwr oedd yr hen enw.

Waen Camddwr.

Tir cymharol wastad rhwng bryniau yw Gwaen, a cheir enwau fel Gwaen Olau, a Waen Oer.

Ffridd Gulcwm.

Tir agored oedd hwn i gyd nes i Edmund Buckley ei gau yn ei drachwant am dir yng Ngwm Cul Maesglase.

Moel Cwm yr Eglwys.

Yr oedd eglwys neu gell yma yn y Canol Oesoedd,a'i gweddillion yn amlwg hyd at ddiwedd y 18 ganrif

Foel yr Hydd.

Beth tybed yw yr hanes a roddodd yr enw hyfryd hwn i'r tir rhwng Cywarch a Llanymawddwy.

Y Gribin.

Crib, sef darn o dir yn codi ac yw weld yn eglyr o'r dyffryn,a cheir nifer o enwau fel Crib Goch, a Cribin Fach a Chribin Fawr.

Mynydd Copog.

Yr hen draddodiad oedd ystyried unrhyw godiad tir yn îs na mil o droedfeddi yn fryn,a rhwng hyn a dwy fil yn fynydd a enwyd gan amlaf ar ôl y fferm a'i porai.Yr oedd unrhyw le dros ddwyfil o uchder yn fynydd go iawn ac yn haeddu enw arbennig, yn aml a'i darddiad ymhell yn yr amser a fu.Tir clapiog yw ystyr yr enw 'Copog'. Ceir hefyd Mynydd Dolgoed,a Mynydd Clywedog a enwyd ar ôl y cwm cyfagos.

Llechwedd Gwyn.

Disgrifiad o dir sydd yn codi, ac eglurwyd eisioes yn y rhagarweiniad am darddiad y nifer o liwiau fel gwyn melyn, du, a coch, a welir mewn nifer o enwau o'r fath.

Y Ceseiliau.

Lle cysgodol yw gesail ac yma y tyfid haidd a cheirch a chodi ambell i dyddyn, er fod y lle hwn yn ddigon cysgod haul.

Clipiau, a Clipiau Duon.

Bryn uwchben Aberangell yw y naill a chodiad tîr o Fwlch y Groes y llall. Bryn, ble y mae y tîr yn esgyn a disgyn yn dalpiau yw ei ystyr.

Yr Esgair, Esgair Ddu,Yr Eisgeiriau.

Tiroedd yn codi neu yn 'esgyn' uwcheb dyffrynoedd yw tarddiad y nifer o enwau a geir yn y cyswllt hwn.

Carreg y Big.

Ucheldir unig a chorsiog rhwng Mawddwy a Llanwyddyn. Gosodwyd nifer o gerrig ar y brig i arwain teithwyr gan mae hon oedd hen Ffordd Amwythig, a ffin y ddau blwyf.Efallai fod yr enw yn gyfeirio at garreg a phig iddi ar un adeg.

Drum Ddu.

Enw arall digon cyffredin ar fryniau unig.Nodwyd eisioes mae lle tywyll di-gysyr yw unrhyw enw yn cynnwys y gair 'du', a dyma un o leoedd mwyaf anghysbell Mawddwy yng Ngwledog.

Tapiau Nyth yr Eryr. Tap Hen Eglwys.

Erbyn hyn y gair Saesnig 'top' a glywir fanychaf ,ond nid dyna ei darddiad.Y mae 'Tap' yn hen enw Cymreig ar le uchel. Ucheldir digon moel y Tapiau Nuth yr Eryr, Pennnant, a safle hen eglwys Llandybo oedd Tap Hen Eglwys. Ceir hefyd Tap Hafan Fawr, Tapiau Gwlybion, a Tapiau'r Geifr, ar Graig Cywarch.

Gallt Ceiniogau.
Term braidd yn anghyffredin i ddisgrifio llethr serth yn y rhan hyn o'r wlad.Nid oes unrhyw gysylltiad a 'Cheiniogau' fel arian ond daw o'r 'Cain', sef lle hyfryd, neu o leiaf golygfa drawiadol.Awgrymwyd hefyd efallai fod y planhigyn 'lygaid y geiniog' yn tyfu yno ar un adeg,ond ansicr iawn yw sail hyn.Y mae ar y dde wrth ddringo Bwlch y Groes o Flaenpennant, a dywedir bod tirlithriad anferth wedi cymeryd lle arno yn ystod storm fawr yn niwedd yr 18 ganrif
Craig Portas.
Craig y porth yw ystyr y lle unig yma rhwng Mawddwy a Thal Llyn.Ceir nifer o creigiau a enwau doddorol arnynt fel 'Craig Cwm Lloi', Clywedog, Craig Rhiwerch, (Tynfa erchyll mae'n bosibl) a Craig y Gamell.
Craig y Ffynnon.
Byddai y llwybr o Gywarch i Rhydymaen yn mynd dros y graig hon ac yn rhywle mae'n rhai yr oedd ffynnon o dwfr ar gyfer y sychedig.
Creigiau Brithion.
Hen air yw 'brith', sef cymysgedd o liwiau. Ceir gwartheg brith, laeth brith, yn union ar ôl iddi esgor ar lo, a chelyn brithion, ond cerrig gwynion yw tarddiad hwn.Rhoddwyd pentwr anferth o'r neulltu pan yn cloddio am blwm ar lethrau orllewinol yr Aran yn y 18 ganrif ac fe gwelir yno hyd heddiw. Ceir hefyd yn yr un ardal 'Clwt y Garreg Wen'. Rhywbeth yn debyg hefyd yw yr enw 'Brithdir Coch' ,sef tîr coch a llawer o gerrig ynddo,a tyddyn Gellifraith.
Creigiau Camddwr.
Tarddiad y gair yw y dŵr yn 'camu' dros y graig, ac yr oedd yno raeadr drawiadol nes y bu tir lithriad yn niwedd y 18 garnif a syrthiodd rhan o'r graig.
Craig y Bwlch.
Dyma yr enw a welir ar fapiau yn disgrifio y creigiau uwchben Bwlch yr Oerddrws, ond Craig y Lladron oedd yr hen enw am resymau digon amlwg.Ar y troâd ar ben y Bwlch gwelir,'Boncyn Dafydd Rogers' a enwyd gan for y pregethwr hwn wedi pregethu i 'gannoedd o bobl' yma yn ystod diwigiad yn yr 1850au
Craig Cywarch.
Dyma greigiau enwocaf Mawddwy erbyn hyn gan fod llawer o ddringo yn cymeryd lle yma gam glwbiau o ganolbarth Lloegr.Oherwydd hyn ofnwyd bod yr hen enwau mewn perygl o ddiflannu, ac yn ystod y 1980au fe aeth Alun Hughes,Cilwern ati i nodi gymaint ag oedd yn dal ar gôf y trigolion.Y mae yn gasgliad gwerthfawr, a nodir hwy yma gyda eglurhâd bur i'r cefndir
Creigiau Sawdl Efa.
Cawres oedd Efa ac y mae ôl ei throed mewn craig yn rhywle.
Llwybr Llewelyn.
Byddai cymeriad o'r enw Llewelyn Goch yn defnyddio hwn i fynd drosodd i Gerist.Y mae yn bosibl mae hwn hefyd yw y Llwybr Pederau y clywir hen hanes amdano. Ni welwyd yr enw eroed ar fap, ac y mae amheuaeth am y dull o sillhafu ond credir iddo darddu o'r Lladin 'Peder', (Pedestrain)
Ffenestr y Graig
Os drychir arni o'r cwm islaw y mae 'ffenestr' ynddi ble mae darn wedi disgyn.
Sawdl y Graig.
Y mae y graig yn troi ei chyfeiriad yn debyg i sawdl.
Tap Isaf ac Uchaf Hafn Fawr.
Eglurwyd eisioes mae hen air am ben clogwyn yw 'Tap'.

Esgair Felen Isaf.
Nid lliw yw y tarddiad yma yn gymaint a darn o dir cymharol fach yn y creigiau.
Ceunant Brwnt
Lle câs a chreulon yw tarddiad 'brwnt' yma.
Tap Dwyren.
Rhêd nant Dwyren drwyddo, ac y mae yn cyfeirio at ei dwy rhan.
Y Pydere.
Lluosog am pyderau, efallai y defnyddiwyd hwy i drin crwyn.
Y Ro Wen a Y Ro Fawr.
Talfyriad o'r gair 'coryn' a geir mewm manau eraill fel Coryn Braich Melyn, i ddisgrifio rhyw binacl.
Tap Rhugen Ddu.
Yr hen enw ar y darn crag yma of 'Yr Hugan Ddu', ac y mae tebygrwydd iddi i ben a chlogyn drosto.
Llain Llwdn Llwyd.
Dywedir bod llwdn wedi bod yn gaethiwed ar y graig yma am wythnos.
Mur y Nant
Tap y Mochyn.
Craig y Gornel.
Cwm yr Ychain.
Y mae y tarddiad yn ddigon amlwg, er na wyddom unrhyw fanylion pam y cafodd yr enw.
Bwlch Maen Hir
Llain Penisel.
Darn o dir hir yw llain, 'Quillet' yw yr enw arnynt ar fap y Degwm.
Tap Pant Cae.
Tapiau'r Geifr,
Tapiau Gwlybion.
Y mae tarddiad rhain hefyd yn ddigon adnabyddus.Eglurwyd y gair 'tap' eisioes.
Pant Llygod

## Y Bylchoedd.

**Bwlch yr Oerddrws**
Disgfrifiad digon cywir yn y cyfnod pan oedd teithio drosto mewn tywydd garw yn berygl bywyd.Bwlch Dolgelle fod bynnag, yw y gair ar lafar yn yr ardal.
**Bwlch y Groes.**
Hwn yw bwlch uchaf Cymru ac hyd yn oed heddiw nid yw yn cael ei glirio an aml yn ystod y gaeaf.Y mae yn amlwg iddo gael yr enw am fod croes yno ar un adeg, a rhai blynyddoedd yn ôl codwyd un eto ar y groesffordd ar ei ben.
**Bwlch Cosyn.**
Dywedir bod ffermwr yn cario 'cosyn' o ymenyn mewn llestr pridd o Cywarch i ffair y Bala pan syrthiodd lawr y ceunant a thorri'n deilchion.
**Bwlch Pant Llwyd.**
Nid oes gwybodaeth am hwn yng ngwm Cewydd ond yr oedd tyddyn o'r un enw yn cael ei nodi yn 1787.
**Bwlch Coediog.**
Hen ffordd o Lanymawddwy i Cwm Cewydd a ddefnyddiwyd hefyd gan y trigolion

wrth fynd o un blygain i'r llall.Ychydig iawn o goed sydd yno bellach.
Bwlch yr Anges.
Y bwlch rhwng Cerist a Chywarch ac y mae yn debyg mae y tarddiad yw 'eang', ac ymhen amser collwyd yr 'e' a rhoddi 'es' ato, gan wneud 'Anges'
Bwlch Swcan,
Yr oedd ffordd o Lanymawddwy yn mynd dros Fynydd Plasau i Abercywarch ond y mae yn anodd gweld y rheswm dros y fath enw.Nid yw Swcan ,sef bwyd o fara ceirch a llaeth, yn air a ddefnyddiwyd yn yr ardal hon, llymri oedd term yma.Clywir hen ddywediad, 'mor dew a swcan', ac y mae yn bosibl mae cyflwr y tir o amgylch ac nid y bwyd ei hyn oedd yn gyfrifol am yr enw.Fodd bynnag 'sygyn',lle gwlyb yw yr enw ar hen fap Ordans,a hwn yw y tebycaf o fod yn gywir.
Bwlch Siglen.
Tir gwlyb, corsiog, yw 'Siglen', ond cyfeirio at y rhannau bob ochr i'r bwlch hwn sydd yn cysylltu Minllyn a Chwm Angell y mae y gair 'Siglen'.Defnyddiwyd llawer arno yn yr amser a fu er gwaethaf yr anhawsder o deithio drosto, ac hyd nes planu y goedwig yr oedd llwybr cymharol dda drosto o Cwm Mynach i Faesglase.
Bwlch y Gesail a Bwlch y Fign
Byddai y llwybr o Gywarch i Rhydmaen a'r Bala neu i Ddolgellau yn mynd drwy y ddau hyn.
Bwlch Cae Griffydd.
Drwy hwn y byddai y ffordd o Landybo i Lechwedd Gwyn yn rhedeg.Yr oedd yn enw ar fferm hefyd ,er yn ddiweddarach fe'i galwyd yn 'Cefn Uchaf',ar ôl i swyddog Cyfrif 1861 ddilheu yr hen enwau .
Bwlch Helygen.
Cyn i'r cwrlwyd o binwydd orchuddio y llethrau i'r gorllewyn o Cwm Angell drwy hwn yr aed trwyodd i 'Nant y Nele' a Mathafarn.Y mae yr enw ar lleoliad bellach yn anghof, er fod ffordd y goedwig yn mynd drwyddo o hyd.
Bwlch Tri Arglwydd.
Ar ei bwys ceir Mynydd Tri Arglwydd, ac yn y cyfnod cynnar byddai Arglwyddi Cyfeiliog, Ystymaner,a Mawddwy yn cwrddd yma i drafod materion gweinyddol ei Cantrefi. Ffordd y goedwig drwyodd i Aberllefenni sydd yno heddiw.
Bwlch Cae Tomen.
Bwlch yn arwain o Flaen Cwm Mynach i Gamlan ac ymlaen i Fallwyd ar Dinas.
Bwlch yr Henfaes.
Bwlch arall o Gerist i Gywarch a dywedir iddo gael yr enw am fod brwydr wedi cymeryd lle yn yr 'Henfaes', a bod y milwyr wedi teithio drwyddo.

## Egluro Hen Enwau

Yma y gwelir enwau adnabyddus yr ardal nad ydynt wedi ei trafod eisioes. Fel y cofir y mae elfen bersonol yn aml lithro i mewn wrth gesio datrys tarddiad enwau. Nid yw yr awdur yn honni unrhyw gymhwysterau llenyddol ar y pwnc, ac y mae yn bur debyg y bydd llawer o anghytuno ymlith y darllenwyr,ac fe fydd yn barod iawn i dderbyn barn eraill.

Mawddwy.
Tarddiad y gair yw ' mawdd' sef taflu allan, a 'gwy' ,dwfr,.
Cywarch.
Awgrymr dau darddiad i'r enw, 'caw' ac 'erch', afon yn rhythro yn gyflym, neu y planhigyn 'cywerch' (Hemp) a dyfid yno, ac a ddefnyddiwyd i wneud sachau a rhaffau.
Mallwyd
Er nad oes yr un teithiwr yn crybwyll ei weld y mae lleoliad 'maen llwyd' a safai gerllaw tan tua dechrau yr 19 ganrif yn fwy tebygol o fod yn gywir na 'maes-llwyd'.
Cwm Cewydd.
'Cawydd' oedd yr enw a welir mewn hen ddogfen o 1795,a credir y daw o goedwig gauedig-'ceu-wydd'. Creda eraill mae y tarddiad yw 'cilwydd', man cysgydol, tra y mae rhai yn awgrymu cysylltiad a Sant anweledig a elwid yn 'Cewyd' .
Cerist.
Y mae rhai yn credu mae enw person yw Cerist, ond drwy gydio 'cer', sef ffrwd, ac 'yst', bywiog,fe ellir cael Cerhynt a Cerris, dau enw tebyg arall yn y gogledd.
Llanerchfyda.
Y mae yn rhwydd derbyn Llanerch, llecyn tawel cysgodol, ac 'ydfa,' ble y tyfid ŷd, ond gall ddod o 'bydâu', heidiau o wenwyn gwylltion.
Camlan.
Glan afon troellog medd rhai, ac y mae hyn yn ddigon gwir.Ceir Brongamlan a Maes Camlan, Camlan Uchaf ac Isaf, a rhwng y ddwy yma Camlan Ganol, a unwyd a'i tiroedd rhywbryd tua diwedd y 18 ganrif.Y mae Camlan hefyd yn ddisgrifiad o safle brwydr ac y mae yn bosibl bod un neu fwy wedi cymeryd lle ar y gwastadedd hyn.Ceir Camlan hefyd yn enw ar ucheldir uwchben Bwlch yr Oerddrws,lle nad oes afon droellog, felly cymerwch eich dewis o'r ddau darddiad.
Maesglase.
Nid o 'faesglas', fel y creda rhai ond o'r Lladin 'clas' o ble y daw 'glasse' ar Saesnig 'cloister'.Gwyddom fod cell ac eglwys yn yr ardal,ac y mae cysylltiad a adeilad eglwysig yn ddigon derbyniol.Ceir amrywiaeth ar yr enw fel 'Maes y Clasau' a 'Maes y Cleisiau',a gwelwyd 'Maesglassrey' mewn hen ddogfen hefyd.Dywed 'Glasynys' mae 'Llanllefoed' oedd un hen enw, ond gan na nododd unrhyw ffynonhell ddibenadwy y mae hyn braidd yn amheus bellach.
Brynllys.
Y mae yr enw yn awgrymu bod 'llys' o rhyw fath yn cyfarfod yma yn yr amser a fu.
Cwm Glan Mynach.
Enw sydd yn cadarnhâu bod mynachod yma yn y Canol Oesoedd, er nad oes dim yn ysgrifenedig i gadarnhau hyn,ond yn sicr yr oedd adeilad eglwysig gyferbyn a ffermdy Blaen Cwm,a dwy ywen enfawr gerllaw hyd nes y cwympwyd hwy yn y 1950au
Llwyn Cry'r.
Nodir y tyddyn hwn yn nhrefgor Nantymynach yn nogfen rhent 1787.Y mae yn amlwg

nad yw yn enw cyflawn,a byddai yn ddiddorol fod wedi gwybod cri pa anifail neu aderyn oedd yn yr enw.

Dinas.

Daw o'r hen air 'Din',Tun a Duan', sef amddiffynfa.

Angell.

Ni ddylid cysylltu y gair a'r Santes Melangell, ond darn o dîr yn codi o ddyffryn neu yn ymestyn allan ucheldiroedd.Dywedodd rhyw awdur Saesneg mae 'winged spur' oedd y tarddiad.

Esgair

Gair o'r un tarddiad,.Ceir Esgair Angell, ac Esgair Adda,yr Eisgeiriau ac Esgair Du. Nodwyd lle o'r enw Esgair y Cwm yn Llanymawddwy yn yr 18 ganrif,ond ni wyddom ddim am dano bellach.

Blaen Plwyf Uchaf ac Isaf.

Nid yw ffin y plwyf yn dilyn afon Dyfi o Fallwyd i Aberangell ond yn croesi drosodd gan gynnwys dau ddarn bach o'r hen Gaereinion Fechan, a dyna syt y daeth y ddau enw presenol i fodolaeth.Nant Llewnydd oedd yr enw gwreiddiol, ond newidiwyd ef i 'Blaen-y-Plwyf-Uchaf' rhywbryd yn nechrau yr 19ganrif pan ddaeth rhyw ail-drefnu sirol i fodolaeth.Drain Llwydion oedd enw cynharach y llall, a chadwyd y ddau enw am hwn ar fapaiu tan tua dechau yr ugeinfed ganrif

Dolobran.

Efallai mae o 'ebran' y daw, neu yn fwy syml o 'dol-Abram',gan mae hwn yw yr enw yn 1787,ar y ddogfen rhent.

Ebrandy.

Ty-Ebran,lle i borthi anifeiliaid,a gwyddom fod y porthmyn yn ei ddefnyddio.

Fachell.

Darn o dîr yw 'buchell' a dyma o bosibl yr y tarddiad

Gartheiniog.

Daw o 'garth' ochr lethrog ble yr oedd eithin yn tyfu. Daw Garthonog hefyd or un tarddiad.

Gelliddolen.

Coedwig fechan o goed cyll yw 'gelli',ac yma y mae yn ffyrfio dolen.Yr oedd tyddyn o'r enw Gellfraith yn yr ardal hefyd.

Castell.

Amddiffynfa, er nad oes llawer o wybodaeth am yr un a roddodd yr enw i'r ffermdy hwn yng ngwm Cewydd sydd yn enwog am ei ysbryd.'Castell y Praidd' yw yr enw ar yr hen ddogfen rhent, nid Castell y Blaidd,' fel y dywed rhai.

Ceir hefyd 'Castell Bach',tyddyn ar lethrau Esgair Ddu hyd at ganol yr 19 ganrif. Cariwyd cerrig ei furiau, a oedd yn amlwg o adeilad llawer pwysicach yn ei gyfnod, i godi mûr mynwent newydd Mallwyd.Mae'n rhaid bod yna adeilad hynach, a gwelir yr enw ar fapiau cynnar iawn,ond ni wyddom ddim amdano.

Hafod ac Hendre.

Hendre oedd y cartref parhâol,'Hen-Dre', adeilad yn yr ucheldir yn ystod yr hâf oedd yr Hafod,'Hâf-Dy'.Ymlith y rhai sydd wedi cadw yr hen enwau y mae Hendreddu, Hendre-Meredydd,a Hendre, a gwelir 'Hafod' ar hen fapiau yn nodi ei lleoliadar hyd a lled y bryniau.Ceir tyddyn o'r enw Hafod Wion ar y ddogfen rhent, a Hafod oedd hen enw Perth y Felin,Cywarch.

Tyrpeg.

Cwmni a ffufriwyd i wella cyflwr y ffyrdd yn niwedd yr 18 ganrif oedd y 'Turnpike

Trust' a derbyn arian drwy godi tollbyrth.Nid yw cael yr enw 'Tyrpeg' o reidrwydd yn cadarnhâu bod tollborth yn y man a'r lle.Cyfeirio at ei leoliad ar y ffordd y mae 'Tyrpeg' a 'Hen Dyrpeg', ond yr oedd tollborth y 'Tyrpeg' yn Nugoed a ger Bryn Cleifion. Codwyd un arall ger 'Cross Foxes',ac y mae y giât hon yn agoriad i gae hyd heddiw.

Gate.

Ty ar waelod y rhiw yn y Dinas nad oedd a chysylltiad a'r 'Tyrpeg', ond yr oedd giat yna a chodwyd dimai i fynd drwyddi ar ddiwrnod ffair.

Cwm Dinewid.

Mae'n wir fod y cwm hwn 'wedi newid' llawer ers y prysurdeb ar cloddio a fu yma yn y gorffenol,ond nid dyna tarddiad ei enw.Hen air am wartheg yw 'dinewid',a dyna ym marn rhai yw yr ystyr,ond y mae eraill yn amheus,er nad oes unrhyw sail arall yw hystyried.

Cwm Caws.

Un o gymoedd diarffordd Cwm Angell sydd bellach dan goed a'i enw bron yn angof.Dywedir bod yr enw yn tarddu o'r cyfnod pan oedd y gwartheg ar geifr yn y mynyddoedd yn ystod yr hâf,a byddai caws ac ymenyn yn cael ei wneud yn y man ar lle.

Maes y Glogwindre.

.Mae'n debyg mae 'Clogwyn y dre' yw y tarddiad.

Rhinie.

Tybed a 'Rhiwiau' neu 'Rhiniog' yw tarddiad hwn.Ni wyddom ddim rhagor amdano na'r uchod ond ei bod rhywle yng Ngherist yn yr 18 ganrif.

Gilrhydd.

Cil yr Hydd.Enw arall yn tarddu o'r anifail hwn yn Llanymawddwy.Ni wyddom ble yr oedd.

Erw Pwll y Calch.

Yr oedd ambell i odyn galch yn ardal Llanymawddwy,ac yr oedd hwn yn rhan o Caed Cae,yn 1787,er mae 'Coecie' yw ar lafar gwlad.

Cwmterllidie.

Cwm a llidiardau yw y tarddiad,ond nid oes rhagor o hanes am hwn chwaith.

Gassel Isa ac Ucha.

Dau dyddyn yng Nghywarch,eto wedi ei nodi ar y ddogfen.

Pont Faen.

Cyn codi pont Abercywarch yn nechrau yr 19 ganrif yr oedd y ffordd yn mynd i fynny'r cwm am ychydig cyn croesi 'pont faen'.Enwyd y tyddyn hwn gan ei fod wrth ei hochr,ac yr oedd dal mewn bodolaeth pan ddaeth fap y Degwm i rym.

Cwrn Wrach.

Corn y Wrach y dylai fod, ond fod clerc y ddogfen rhent wei ei enwi yng anghywir.

Ty Poeth.

Enw anghyffredin,er fod un hefyd yng Nghemais.

Dolbrawdmaeth.

Pwy tybed oedd y brawd oedd berchen dôl mor faeth.

Rhwng y Ddwynant.

Tyddyn yng Nghywarch yn yr 18 ganrif.Ni wyddom ei leoliad.

Mynogau.

'Mawnogau' oedd yr enw ar hen ddogfen rhent, a dyna tarddiad enw y ddau le.

Parc.

Tyddyn bychan yw tarddiad y gair a diflanodd yr un ar enw hwn arno pan adeiladwyd Plas Dinas a'i erddi yn y 1850au.Credir i weddill y tîr ddod yn rhan o Tanybwlch.

Pennant.

Enw digon cyfarwydd o 'pen-nant'.Ychwanegir ato gyda enw ei berchenog yn 'Pennantigi'.

Penrhywcul.

Nid 'rhiw cul' fel y gellir tybio, ond yr oedd odyn , neu 'gulun' yma ar un adeg, a chafwyd y gair, 'Pen-rhiw-culun'.

Tydecho.

Gwyddom fod y Sant wedi gadael ei wlad enedigol i ddod i Fawddwy ac y mae ei enw yn tarddu o 'Tech' sef dianc, neu alltyd.

Gwely Tydecho.

Nid rhywbeth i gysgu arno ond enw a roddwyd ar ddarn o dir o dan yr hen ddeddfau Cymreig.Y gwastadedd uwchben Rhiw March, Pennant,.Llanymawddwy yw Gwelu Tydecho.Hafn yn y graig gerllaw hefyd yw Ffynnon Tydecho.

Rhiw Cawr.

Codiad yn y ffordd cer Cilwern, Llanymawddwy, a daeth yr enw pan gafwyd esgyrn dynol o faint aruthrol yno pan yn gwella y ffordd yn niwedd yr 18 ganrif.

Rhiw March.

Ni wyddom a ddigwyddodd rhyw drychneb i farch ar y rhiw serth hwn, ond defnyddwyd y ffordd drwy Gwm Ffynon yn gyson wrth deithio o Lanymawddwy i'r Bala i arbed mynd dros Bwlch y Groes hyd at ganol y 19fed ganrif.

Rhiw Londrin.

Y tamaid rhiw rhwng y Llew Coch a Dolybont yn y Dinas. Cafodd yr enw am fod adeilad 'Laundry' y Plas wedi ei godi yno.

Dolybont.

Yr oedd pont bren yn croesi'r afon yma fel y gwelir ar lun Thomas Letts,1842.Yma y cymhelid ffeiriau anifeiliaid y Dinas.

Cleifion.

Enw ar afon ac ar y lleoliad sydd wedi bod yn destyn trafod am gyfnod hir. Credaf nad oes sail yr hanes bod yn enw yn tarddu o'r ysgarmes a gymerodd le yno yn 1644 rhwng milwyr y Senedd a gwyr Mawddy ble y cafodd nifer ei clwyfo.Tarddid y gair 'cleifion' yw pobl yn dioddef o rhyw haint neu glefyd,ac y mae yn fwy tebygol mae yma yr anfonwyd hwn i fod allan o gyrraedd y pentrefi cyfagos pan oedd afiechydon heintys yn ddigon cyffredin.

Crofft

Yr hen enw Cymreig yw 'rofft', sef cae bach a dyfodd yn ddiweddarach yn dyddyn.Ceir hanes am 'Crofft Ithel', ac yr oedd fferm fechan a elwir yn 'Crofft' ar ddogfen rhent 1787, a oedd, yn ôl traddodiad, rhwyle uwchben Camlan Isaf.Yr unig enw sydd yn parhâu yw 'Grofft', Llanwrin.

Caebati.

Y mae pawb yn derbyn mae o 'cae-abaty, y daw enw y tyddyn hwn yng Ngwm Mynach nad oes bellach ddim i weld ohonno.Fodd bynnag yr oedd y diweddar Bewdwyr Lewis Jones,un o arbenigwyr enwau lleoedd yn bendant mae y tarddiad oedd 'batin', sef lle y torrwyd tyweirch ar gyfer tanwydd.

Cefnbyriaeth.

Cafwyd hyd i hen arfau rhyfel yma, er na wyddys beth fu ei hanes, a chredir y daw o 'cefn-lle-bu-alaeth,'.

nant, ond awgrymyr hefyd y dylid ystyried 'du-nant' gan fod cloddio am blwm wedi newid lliw y dŵr.

Terwyn.

Fe all ddod o 'tre-yr-wyn' yn y cyfnod pan oedd yn rhaid ei cadw yn ddiogel o gyraedd bleiddiaid.Gan ei fod yn le eithriadol o stormus ac yn enwog am wynt beth am 'ter-wynt'.

Tai Newyddion.

Rhes o dai a godwyd yn Mlaencywarch ar gyfer y gweithwyr plwm yn yr 1840au.

Glanllynmawr.

Fel 'Minllyn' mae'n siwr bod llyn yma yn yr oesoedd a fu.

Llanerch.

Tebyg mae 'Llanerchgoediog' yw yr enw llawn, ond heblaw ei fod yn ormod o lond gêg, llecyn tawel a choed oddi amgylch iddo yw Llanerch.Nid oes felly anghen 'Goediog' ar ei ddiwedd.

Cwm yr Haidd.

Nid oes rhaid egluro yr enw ond nodir ef i gofio mae haidd a cheirch oedd brif gnydau yr ardal yn y gorffenol.

Ty'n yn Simdde.

Nid tŷ mewn simdde wrth gwrs, ond efallai mae tŷ yn berchen simdde oedd y rheswn dros enwi y tyddyn hwn.

Collfryn.

Dywed traddodiad i'r Gwylliaid a grogwyd gan Lewis Owen gael ei claddu yma, ond y mae yn bur anhebyg gan fod ganddynt ei mynwent ei hyn yn Nugoed.Credir mae rhywbeth naturiol yw twmpyn Collfryn,ac hyd yn hyn nid oes syniad pam y cafodd yr enw sydd yn tarddu o 'fryn-y-colledion'

Dugoed.

Yn yr hen amser yr oedd gymaint o goed yn y cwm fel y gellid teithio drwyddo heb osod troed ar y llawr.Dyma ganolfan y Gwylliaid,a gelwid hwy yn 'Wylliaid y Dugoed' gan rai.Yr oedd teithio drwy y 'Coed du' hyn mor beryglus fel y byddai bron bawb yn mynd drwy Cwm Clywedog yn y cyfnod.

Pyllau'r Glwyferiaid.

Pyllau ar fynydd Dugoed Mawr a ddefnyddiwyd i drin crwyn mae'n debyg. Ni wyddom am ei lleoliad bellach.

Carneddi'r Gwragedd.

Tri pentwyr o gerrig ar fynydd Llwyngwilyn i nodi y fan y collodd tair gwraig ei bywyd yn yr eira wrth deithio o Garthbeibio i Lanymawddwy flynyddoedd maith yn ôl.

Cell Fawddwy.

Ogof fach, neu yn hytrach llecyn rhwng creigiau, eto ar yr un mynydd,ble yn ôl traddodiad y byddai Sant Tydecho yn mynd i fyfyrio.

Aberdwyafon.

Tyddyn ble yr oedd afon Cleifion yn rhedeg i'r Ddyfi.Telid dau swllt o rent arno yn 1787.

Plasau.

Plas y Gwnion oedd yr hen enw ac yr oedd yn dŷ cymharol bwysig yn y Canol Oesoedd, fel Plas Uchaf.

Fodd bynnag ni ddylid derbyn fod pob 'plas' yn le bonedd,er engriafft cartref digon cyffredin oedd 'Plas y Nant,Cywarch.

Graig y Gronfa.

Cwmllegoedig.
Fe all fod o 'cwm -coediog' er y gellir cysylltu 'llygod' ar enw hefyd.
Cerddin.
Yr oedd yn arferiad yn yr amser ofergoelus a fu i blanu coed cerddin wrth ochr tai i gadw ysbrydion aflan draw,ac yn ôl yr hanes yr oedd digon o anghen hyn yn Llanymawddwy.
Credit.
Dafarn digon drwgdybys yn Llanymawddwy, a mae yr enw yn ateb dros ei hyn.
Cross Foxes.
Enwyd tafarnau fanychaf gan ei harwyddion,ac er mwyn gwneud yr ymwelydd deimlo yn fwy cartrefol Saesneg oedd y mwyafrif,er i'r 'Sun Inn' newid i 'Dafarn yr Haul.Hen enw ar y 'Brigands' presenol oedd 'Cross Foxes',sef arfbais y 'Peniarth',ond newidiwyd ef gan fod tafarn o'r un enw ar y ffordd i Ddolgellau.
Ceinan.
Talfyriad o Ceunant, neu 'cei-man', lle dymunol or gair 'cain', fel ei ceir yn 'Gallt Ceiniogau'.
Cwm Llygaid.
Cwm sydd yn rhedeg i'r dwyrain o Lanymawddwy. Efallai y cafodd yr enw gan ei fod yn 'llygaid yr haul'.
Cwm y Filast
Un arall o gymoedd yr ardal hon na wyddom ddim ar y rheswm dros yr enw.
Pont y Lladron.
Pont o dyweirch ar hen 'FforddAmwythig' a ddefnyddiwyd gan y Gwylliaid.Hefyd a chysylltiad a'r rhain y mae Ffynnon y Gwylliaid ar ben Bwlch y Groes. Dywed traddodiad iddynt olcho ei dwylo gwaedlyd ynddi ond gwyddom bellach mae rhyw fwyn yn y dŵr yw y rheswm ei fod yn coch ei liw.
Pont ar Wrysgen.
Y mae enwau y pontydd yn ddigon rhwydd yw egluro ag eithro hon.Nodir hi fel 'pontrusk' ar fap Speed or 17 ganrif,er iddo gael y lleoliad yn anghywir.
Gwyr bob gwerinwr am ddefnydd gwrisgen, (brushwood) ond y mae egluro y cysylltiad a'r bont yn fwy cymleth.Nid pont wedi ei gwneud o 'wrysg' oedd hi wrth gwrs,a dylid sylwi mae 'Pont ar Wrysgen',nid 'Pont y Wrisgen' yw yr enw sydd ar lafar.Y mae rhai yn geisio egluro mae y tarddiad oedd lle y tyfid 'gwrysg' gerllaw, ond nid yw hyn yn egluro yr 'ar' yn yr enw.Er mae pont bren oedd yma tan un 1840,dylid ystyried bod y wreiddiol,ac yr oedd llawer mwy nag un dros y blynyddoedd,wedi cael ei chodi ar welu o wrysg a oedd wedi ei osod fel seiliau.Yr oedd gosod gwrysg i gadarnhau ffyrdd dros dir corsiog yn arferiad gan y Rhyfeiniaid,ac efallai bod hon wedi ei chodi 'ar wrysg',ar gair yn ddiweddarach yn newid i 'wrisgen'.
Pont Wen.
Codwyd yr un wreiddiol o bren gan y Walton's yn yr 1850au,a 'pont Walton'oedd yr enw swyddogol at hon hefyd.Adeiladwyd hi yn 1926 mewn concrid,a dyna pam y cafodd yr enw 'pont wen'.Dinistrwyd hi gan lifogydd mawr 1964.
Efail Fach.
Hawdd yw derbyn mae gefail gôf yw y tarddiad ond daw o 'Gafael', sef darn o dir o tua thigain erw yn yr hen ddull Cymreig o fesur, sydd yn llai na'r erw ddiweddarach.Enw o'r un tarddiad yw 'Afalen Deg' ym mlwyf Darowen.
Dunant Fawr.
Yr enw yn y 18 ganrif oedd 'dwynant' sydd yn ddigon derbyniol gan fod yno ddwy

Graig y Gronfa.
Nid 'cronfa' fel y tyb rhai,ond 'yr oenfa' yw y tarddiad mwyaf tebygol.
Cae Bodrain.
Tyddyn yng ngwm Maes Gamfa na oedd mewn bodolaeth pan dynnwyd map y Degwm.Clywais mae 'Bwa drain' oedd ei enw ar lafar sydd yn awgrymu 'bwa' draenog,dull cyffredin o gorlannu anifeiliaid.
Hafod y Bugail.
Gwelir muriau hwn yn rhan uchaf Cwm Maesgamfa ac yn sicr nid hafod oedd yn wreiddiol.Y mae ei furiau trwchus ag agoriadau cul ynddynt yn awgrymu adeilad sylweddol,ond ni wyddom ddim am ei hanes.Mae'n debyg iddo gael ei ddefnyddio fel hafod yn ddiweddach,a dyna pryd y cafodd yr enw.Gresyn na fyddai mwy o wybodaeth amdano.

# Enwau Caeau

Bu newid mawr a fu  mewn dulliau amaethu yn ystod yr hanner canrif ddiwethaf pan welwyd nifer fawr o gaeau yn cael ei hyno drwy gael gwared o'r cloddiau. Y mae enwau y porfeudd colledig hyn yn debygol o fynd yn anghof,a dylid nodi gymaint sydd ar lafar ag sydd bosibl.

Fel y dywedwyd eisioes yn y rhagarweiniad nid yw mapiau degwm Mawddwy yn nodi enwau a caeau,a gresyn mawr am hyn,gan fod traddodiad llafar mor gryf yn yr ardal,ac y mae nifer o enwau digon diddorol  y dylid olrhain ei hanes.

Y mae astydiaeth o enwau caeau yn faes y dylid rhoi sylw  iddo ar frys, a diddorol yw gweld bod erthyglau ar y pwnc wedi ymddangos yn rhifau diweddaraf y cylchgrawn 'Fferm a Thyddyn', gan fawr obeithio y bydd rhain yn ymddangos yn llyfryn yn y dyfydol.

Beth sydd yn ddiddorol yn yr enwau hyn yw yr amrywiaeth a geir ynddynt.Ceir enwau yn tarddu o faint y borfa, fel 'Cae Bach a Chae Mawr, Cae Cul a Chae Hir,' ac ym mlwyf Cemais ceir yn enw anghyffredin 'Cae Cwpan a Soser'.Y mae hwn yn gymharol grwn ei ffyrf a chlwstwr o goed yn ei ganol,a dyna i chi ddychymig i feddwl am y fath enw.Yna ceir ei cysylltiad at ffermdy fel, 'Cae Dan Tŷ, a Cae Pella.'Rhoddir pwyslais ar rhywbeth sydd yn y caeau, sef, 'Cae Ffynon, a Cae 'Sgybor', ac yn aml beth sydd yn tyfu yno fel 'Cae Eithin a Chae Banadl'.

Ymlith yr enwau mwyaf dddorol yw y rhai sydd yn rhoi engraifft o ddull lafurio yn yr amser a fu a gwelir enwau fel 'Cae Pum Pladur' gan y byddai anghen y nifer hyn o bladurwyr i'w dorri mewn diwrnod.Enwau eraill sydd yn bwysig i'w cyfnodi ye y rhain a darddodd a ddigwyddiad hanesyddol sydd bellach yn anghof fel 'Dol Cesyg' a Ffridd y Groes',ac ni ddylid anghofio 'Cae Meddwon', ble y taflwyd y rhai oedd wedi yfed gormod i sobri.

Ceir amrywiaeth o enwau mewn tyddyn bach iawn fel y gwelir yn y rhestr hon o fferm Pen y Cefn,Aberangell, cartref fy nhaid a nain.

Cae Dan Tŷ.
Cae Isaf.
Cae Tu ôl Tŷ.
Cae Tw'nt I'r Ardd.
Cae Bach.
Cae Tw'nt I'r 'Sgybor.
Cae Eithin.
Cae Newydd.
Llain.
Cae Mawr.
Cae Gwastad.
Cae Llwyd.
Cae Llun Esgid.
Yr Erw.
Tap Hen Eglwys.

Gwelir isod rhai o enwau caeau mwyaf diddorol 'Deublwyd Mawddwy'. Mae'n siwr bod llawer rhagor,a bydd yr awdur yn falch o glywed oddi wrth unrhyw un a all ychwanegu at y rhestr.

Cae Ann.
Morwyn Gellddolen oedd yr Ann ac ymlith y rhai a oedd yn bwyta pryd o fwyd amser cynheuaf pan saethodd un o'r Gwylliaid Cochion saeth o gryn bellter i mewn i'r cosyn caws.
Cae Gwylliaid.
Tyddyn bychan rhywle yn Nugoed a nodir ar hen ddogfen rhent.
Ffridd y Groes.
Dywedir i groes cael ei chodi yma i goffhâu Lewis Owen ar ôl ei lofruddio gan y Gwylliaid.
Cae Dolau.
Cyn y cyfnod o gau tiroedd i mewn rhennid hwy ymlith llawer o dyddynwyr.'Cae mewn dôl' a dyfodd yn dyddyn yw hwn a enwir ar ddogfen rhent 1787.
Hectar.
Hen enw a haearn smwddio, a dywedir bod ffurf y cae yn debyg iddo
Cae Llun Delyn.
Un o Gaeau Craig y Gronfa.
Cael Llun Esgid.
Cae ar lechweddau Llandybo ac wrth edrych arno o'r pentref gwelir ei fod ar lun esgid.
Long Stocking
Eithriad yw enwau Saesneg yn yr ardal,ond yr oedd cae ar lun hoson yng Ngaer Gof.
Cae'r Gôf.
Mae'n debyg mae yma y pedolwyd gwartheg cyn i'r porthmyn fynd a hwy i Loegr.
Cae Pump Gŵr,a Cae Tri Gŵr.
Dau gae yn Nant y Dugoed a enwyd drwy yr amser a gymerwyd y nifer hyn o ddynnion i dorri ei gwair.
Pisin Tair.
Cae yn Ngwm Dugoed eto, rhyw ddarn o dir sych yng nghanol y rhosdir,ond yr hen 'pisin tair' arian a ddylanwadodd ar yr enw siwr.
Cae Dentur.
Cae ble y crogwyd deunydd gwlan i sychu ar ôl ei 'banu' yn y pandy, ac y mae eraill o'r un enw ar hyd a lled yr ardal.Ceir nifer o gaeau yn cynnwys yr enw Pandy, Fel Ffridd y Pandy, Cwm Angell.
Cae y Bontbren Ddu.
Mae'n debyd bod pont dros yr afon Clywedog yn y cae hwn yn Nugoed.
Cae Llwyn y Brain.
Cae Fedw Sidan.
Nodir dyddyn o'r enw Bedw Gwynion ar y ddogfen rhent hefyd.
Cae Crythor.
Cae'r Dyn.
Cae ym Mhennant a nodir ar ddogfen rhent 1787.
Cae'r Ŷs.
Y mae y darllenydd yn hen gyfarwydd mae dyrnu a ffyst oedd yr hen ddul,a byddai yr ŷs yn cael ei chwythu i ffwrdd gan adael yr hâd.Cae dyrnu felly oedd hwn.
Cae Peris
Tyddyn yng Nghywarch,ac yn ôl pob tebyg enw person yw 'Peris'.
Morfa.

Enw digon anghyffredin mewn ardal fynyddig os cysylltir ef a 'môr',ond y mae yn fwy tebygol mae 'porfa' oedd yma.
Rhôs Dwpa.
Rhos dalpiog o bosibl oedd hon ym Mlaenpennant.
Maes Eglwys.
Cae ger y fordd yng Nghywarch ac yn ôl traddodiad bwriadwyd adeiliadu eglwys y plwyf yno ond dymchwelwyd y muriau a godwyd yn ystod y dydd gan ddwylo anelwig yn y nos.Rhoddwyd heibio i'r ymdrech a'i chodi y Llanymawddwy.
Cae Meddwod.
Soniwyd am hwn eisioes, ar un adeg yr oedd Penrhiwcul yn dafarn ac y mae a cae ar bwys y lle.
Cae Llety Fadog,Cae Gomer Hudd Bach.
Y mae caeau wedi ei henwu ar ôl personau yn ddigon cyffredin, ond ni wyddom ddim am y rhain
Cae Sion Hywel.
Dywedir fod y gŵr hwn yn swyddog ym myddin Cromwel ac iddo ef a'i filwyr wersylla yma yn ystod y Rhyfel Gartrefol.Y mae eraill o'r farn mae yn eglwys Llanymawddwy y buont yn treulio'r noson,gan gynnau tân yn y fedyddfa.
Ffridd Andros
Enw digon anghyffredin hyd nes y sylwyd ei bod yn 'andros' o anodd ei drin.
Dol Cesyg.
Dywedir i ddwy gaseg foddi yma ar ôl gwylltio a rhuthro i 'Lyn Cesyg.'
Cae Llwyd.
Cae yn Llanybo yn gwynebu y dwyrain ac ymlith yr ofal i ddechrau tyfu yn y gwanwyn.
Cae Mab Gwyddel.
Codwyd ysgol newydd y Dinas ar hwn ond nid oes syniad pwy oedd hwn chwaith.
Cae Rhyd Llech Fawr.
Nid yw nant Cernog yn rhyw lawer i sôn amdani,ac yr oedd llechen fawr yn ddigon i'e chroesi.
Cae Bitffel .
Yn y Bitffel y rhoddwyd anifeiliaid coll ac y mae rhyw ddau neu dri o'r rhain ar gôf yn yr ardal o hyd,er nad yw yr enw hwn ar bob un bellach.
Cae Cewyll.
Cae ger Penybont,Mallwyd.Ar un adeg yr oedd gored yma a gosodwyd cewyll yno i ddal pysgod.
Dol y Gas.
Yr oedd adeilad yma ar gyfer cynhyrchu nwy ar gyfer Plas Dinas.Bu ffrwydriad yno yno tro a llosgwyd John Jones Brook Terrace mor ddrwg fel y bu yn rhai ei adeal mewn papell am gyfnod cyn ei symyd.
Cae Rhyd y Moch.
Y mae hwn ar dir Llanerch,Llanymawddwy, ble y byddai y ffordd i Amwythig yn groesi yr afon.Ceir nifer o enwau a chysylltiad a moch yn yr ardal hon, sef, 'Ceunant y Perchyll, a Pant yr Hychod'.
Clwt yr Efail.
Rhywbeth cyffredin iawn oedd cael darn o dir a chysylltiad a thafarn neu weithdy..Fodd bynnag eglurwyd eisioes mae tarddiad yr 'efail' yw 'gafael o dir'.
Dol y Plwyf, neu Dol Dyfi.

Prynwyd y tîr gan y plwyf gyda'r arian a adawodd Dr.John Davies at y pwrpas,a rhennid y rhent yn flynyddol ymlith y tlodion.Dol y Foddion oedd enw arall arni,gan ei bod yn rhoi 'moddon' i'r tlodion.

Cae Bwtsiar

Cae yn y Dinas ble yr oedd cigydd lleol yn lladd ei anifeiliaid.Codwyd dau dŷ arno yn ddiweddarach.,

## Llynnoedd

Ceir dau fath o lynnoedd,y rhai naturiol ar yr ucheldir,a ehangwyd mewn ambell i le ar gyfer chwareli, a llyn mewn afon.Tra y mae enwau y llynnoedd mwyaf yn ddigon adnabyddus y mae y rhai a roddwyd i rannau dyfnaf o'r afonydd mewn perygl o ddiflannu gan fod ambell un yn gyflyn lanw a graean.Newidiwyd enwau ambell un gan bysgotwyr o Saeson a oedd yn cael traffeth gyda'r enw gwreiddiol,a rhwng un peth ar llall y mae yn hanfodol ei bod yn cael ei nodi tra y byddant o hyd ar gôf y trigolion hynaf.

Gan mae yr enw ac nid y lleoliad cywir sydd yn holl-bwysig ni roddir cyfeiriad mapiau yma,nac unrhyw le arall yn yr ysgrif hon.

Creiglyn Dyfi.

Tarddiad yr afon, llyn dan 'greigle' yr Aran.

Llyn y Fign.

Daw o'r hen air Gymreig, 'Migin' sef lle corsiog neu wlyb.Gerllaw, ond llawer yn llai o faint ceir 'Llyn Bach'.Y ddau lyn uchaf ym Mawddwy.

Llyn Foel Dinas.

Llyn Chwarel, sydd bellach yn gronfa ddŵr.

Llyn Hendre Ddu.

Llyn naturiol arall a ddefnyddiwyd ar gyfer cyflenwad i'r chwareli.Y mae yn dal mewn bodolaeth fel 'Llyn tân' y goedwigaeth.

Llyn Cwmllegoedig.

Llyn pysgod a gronwyd gan Henry Fawcet yn nechrau y 1850au.Codwyd eraill odditano yn nghyfnod y Walton's, ond drylliwyd hwy yn llifogydd 1964.

Llynoedd Afonydd

Minllyn.

Ganrifoedd lawer yn ôl yr oedd yr iseldir o amgylch y Dinas yn llyn anferth,a dyma tarddiad yr enw 'Minllyn'.Anodd yw dod o hyd i enwau llynoedd afon yn uwch i fynny'r afonydd, ond gwelais gyfeiriad at yr enw 'Glaslyn' am lyn ffatri Abercywarch yn rhywle.

Gan mae enwau Mawddwy sydd dan astydiaeth yma ni awn ymhellach na phont Mathafarn,sydd ymhell y tu allan i'r ffiniau mewn gwirionned, gan adael y gweddill o'r afon tan rhyw dro eto.

Pont Minllyn i Bont Mallwyd.

Llyn Dôl John.

Ni wn pwy oedd y gŵr hwn,ond yr oedd yn arferiad i bysgotwyr fel tir feddianwyr roi ei henwau i lynoedd.

Llyn Cae Ladis

Gwragedd teulu'r Bullock o Fryn Cleifion a fyddai yn hamddena ar ei lan yn yr hâf a roddodd yr enw iddo.Ceir yr enw 'Ladis' ar lyn yng Nghorris hefyd,tarddiad o'r Saesneg 'Ladies' wrth gwrs.

Llyn Gwyddau.

Dim trafferth yma,yr oedd gweld gwyddau ar afonydd yn rhywbeth ddigon cyffredin yn y gorffenol.

Llyn Cam Uchaf,ac Isaf.,

Y mae 'Cam' yn ddisgrifiad rhagorol gan fod yr afon yn gwyro yn sydyn yma.Yr oedd

popeth o gyrff anifeiliaid i goed enfawr yn dod i'r lan yn Llyn Cam,ac yn cadw preswylwyr Capel Camlan a Phenybont mewn coed tân drwy'r flwyddyn.

Llyn Martin.

Y llyn yn union uwchben y rhaedr a enwyd ar ôl rhyw bysgotwr debyg.

Llyn Ffrwd.

Yr un o dan y rhaeadr.Rhwng y ddau y mae 'Craig y Gôf',ac yr oedd un o ofaint Mallwyd yn hoff iawn o bysgota oddi arni.

Pont Mallwyd i Bont Walton.

Llyn Garreg Fraith.

O welu yr afon yma y cloddiwyd carreg hardd allor yr eglwys yn 1777.

Llyn Du.

Y mae y llynoedd dyfnaf yn dywyll ei lliw,ac y mae hwn yn enw digon cyffredin.

Tree Pool.

Yr hen enw oedd Llyn yr Onnen, ond gan ei fod yn gwerthdaro a un o'r un enw ymhellach i lawr derbyniwyd enw Saesneg y tro hwn.

Llyn Gwernhefin.

Y mae nifer o'r llynoedd ar y rhan hyn o'r afon wedi ei henwi ar ôl y ffermydd cyfagos.Nodir hwy yma ond yn fras.

Llyn Craig y Gronfa.

Llyn Cesig.

Dywed traddodiad fod dwy gaseg wedi cael ei gwylltio gan y pryf 'Robin y gyrwr' yn ystod cynheuafu ar y ddôl, ac wedi rhythro i'r llyn a boddi.Cafwyd yr un enw ar y ddôl cyn tynny y gwrychoedd a throi y tair yn un.

Llyn Dol'sgellog.

Gro 'Stadgoed.

Pont Walton i Bont Mathafarn

Llyn Penisyraber.

Llyn dwfn ble y mae yr Angell yn llifo i mewn i'r Ddyfi.Fel y mae yr enw yn awgrymu hwn oedd safle 'Pen isaf pentref yr Aber'.

Llyn Graig.

Cyt Nant Cyff.

Nid llyn mewn gwirionedd ond 'Cyt' yw yr enw a roddwyd ble yr oedd afon wedi torri yn ddyfnach i'w gwelu rhwng dau lyn arbennig.

Llyn Onnen.

Llyn Stylcie.

Enw ar lafar yn unig yw 'Stylcie' sydd yn gyflyn ddiflannu bellach, a defnyddir ef sawl gwaith yn y cyffiniau.Efallai ei fod yn tarddu o 'stwlciau',lle i fwydo moch,byddai yn ddiddorol clywed barn arbenigwr..

Llyn Ty'n Llechwedd.

'Ty mewn llechwedd' wrth gwrs,ond diddorol nodi bod ffermdy o'r un enw ar un adeg yn Llanymawddwy hefyd.

Llyn y Glen.

Llyn Plas Aberhiriaeth.

Adeilad o ddechrau y 18 ganrif yw Neuadd Aberhiriaeth.Ceir hefyd fferm a nant o'r un enw ond gan ei fod y tu allan i Fawddwy ni thrafodir ei gefndir yma.

Llyn Twymyn.

Yma y mae afon Twymyn yn ymuno ar Ddyfi
Llyn Geulan Goch
Yr oedd colli tir i afonydd yn ystod llifogydd yn bryder ar hyd y canrifoedd.Y dull cydnabyddedig o'i rwystro oedd plethu gwial o helyg a chyll dan y geulan a byddai y llif ymhen amser yn cario graean i ffurfio glan newydd.Disgrifiad o geulan o dir noeth wedi ei olchi i ffwrdd a geir yma.
Llyn Ty'n Coed.

Afon Angell.
Llyn y Rhaeadr.
Codwyd adeilad ar gyfer pysgotwyr yma a 'llyn y fishing box' yw yr enw mwyaf cyffedyn.Clywais sôn mae 'llyn y pandy' oedd yr hen enw,ond y mae yn rhyw hwyr i gadarnhâu hyn bellach.
Llyn y Fydde.
Yr un uwch ei ben sydd wedi ei dorri yn y graig ac yn debyg i fuddai gorddi.Yr oedd yn le mor beryglys fel y byddem yn cael ein rhybyddio pan yn blant i beidio mynd yn agos ato.
Llyn y Felin, neu Llyn Yr Argae.
Llyn wedi ei groni i droi dŵr i'r felin nad yw yn bodoli bellach.

## Nentydd, Llynoedd. ac Afonydd

Y tueddiad yw rhoi yr un enw i nentydd bychain a'r cwm y rhedant drwyddo, neu fferm cyfagos.Llinell derfyn go denau sydd rhwng nant ac afon, ac y mae nant Cwm Mynach yn fwy o faint na afon Rhiwlech.Eithriad yw cael dau enw ar yr un afon, ac nid oes eglurhad pendant pan y gelwir rhannau isaf afon Clywedog yn afon Cleifion.Gwyddom fodd bynnag mae y rheswm dros enwi y rhan o afon Ddyfi o'i tharddiad hyd at Llanymnawddwy yn Laethnant yw fod saint Tydecho wedi ei throi yn llaeth ar ôl i forwyn odro gwmpo wrth groesi Rhyd y Gerwyn ac aeth y bwceded i'r dyfroedd.

Nodir yn gyntaf enw y brif afon,ac yna y nentydd sydd yn rhedeg iddi, gan gychwyn o'i tharddiad.Gwelir nifer o'r enwau ar fapiau cynnar yr Ordans,ond y mae eraill wedi ei casglu ar lafar yn unig.

Afon Dyfi
Y tarddiad mwyaf derbynniol heddiw yw mae o 'Dof-Wy', dyfroedd dwfn o thywyll, nid tawel y daw y gair.
Llaethnant.
Yr enw a roddir i'r rhan uchaf hyd at bont Pennant,fel yr eglurwyd uchod.
Nant y Fuddai, Nant Ganol, Nant Bellaf,
Rhêd y rhain i Nant y Briddell.Yn y ceunant o'r un enw y torrwyd tyweirch ar gyfer tanwydd.
Nant Llewelyn Goch.
Ni wn beth yw y cysylltiad rhyngddo a'r nant hon
Nant y Gwnfa.
Man gwyn yw y tarddiad,uchben Allt Ceiniogau, sydd hefyd yn tarddu o'r 'Cain',lle prydferth.
Afon Rhiwlech.
Cyn torri y ffordd bresenol dros Fwlch y Groes yn niwedd yr 18 ganrif rhaid oedd dringo dros risiau o lechi i fynd drosto.Efallai hefyd fod llechi wedi ei cloddio yma.
Nant y Cafn.
Nant Lledfron.
Nant Cerddin
Nant Bren.
Enw digon anghyffredin ar y nant sydd yn rhedeg o Foel Gordd i'r Rhiwlech.Yr eglurhâad rhwyddaf yw bod coedwig gerllaw lle y cafwyd.'Pren'.ond nid oes dim yn sicr mewn enwau lleoedd.ac enw ar lafar yw hwn yn unig.
Nant Ddu
Lliw y dŵr mawnog mae'n debyg y cyfeirir ato.
Afon Pumrhyd.
Y mae yn debyg bod y nifer hyn o leoedd i groesi er ei bod yn anodd i'w darganfod bellach.
Glovwnant
Nid oed anghen manylu ar y tarddiad.er fod yr enw wedi ei gam-sillafu ar y mapiau.
Nant Cil Cwm.
Afon Serfel
Prin ei gellir ei galw yn afon ond y mae yn risialaedd 'fel y sêr'.
Nant yr Onog.

Efallai bod cysylltiad ag wŷn yma yn rhywle.
Nant Wenallt
Engraifft eto ble mae gwyn yn rhan o enw i ddisgrifio lle braf agored.
Nant Cilcwm
Nant Yr Esgair.
Nant Efail Fach
Yr oedd efail yma ar un adeg, ond nid dyna y tarddiad.Daw o 'Gafael',sef darn o dir.
Nant Llech.
Digon prin oedd llechfain yn y rhan hyn,efallai bod cloddio wedi cymeryd lle yma.
Nant Nodyn
Enw tyddyn hefyd,credir bod y Nôd Glas yn cael ei gloddio yma
Nant Niwlen
Cwm ble yr oedd y niwl yn debygol o aros.
Nant Nicholen.
Ceir tyddyn o'r enw yma ar yr hen ddogfen rhent rhywle yn yr un lleoliad.Enw arall am y gwcw yw y 'nico',a dyna y tarddiad mae'n siwr.
Nant Nulan.
Tyddyn arall yn y cyffiniau a nodwyd ar ddogfen 1787 na wyddom ddim amdano.Yr un tarddiad a nant Niwlen siwr.Diddorol fyddai adnabod y nentydd o roddodd enwau i'r tyddynod hyn.
Nant Tyddyn Wilcoc
Nant Nest.
Nant yn rhedeg drwy bentref y Dinas.Dywed traddodiad i Owain ap Cadwgan ddod a Nest i Fawddwy ar ôl ei 'dwyn' o gastell ei gŵr yn Mhenfro.Gan fod y digwyddiad wedi cymeryd lle yn y 12 ganrif anodd yw derbyn y cysylltiad.
Ffinant.
Nant Minllyn,ond hon y ffin ddeheuol y Fwrdddeisdref,a Ffinant oedd yr hen enw.
Nant y Gamell
Rhêd i lawr o Moel y Wylfa,ac y mae yn troi yn sydyn ger Maes Camlan, fel 'Llinel Gam'.
Nant Cyff.
Nant Llwydo
Eglurwyd cefndir hon eisioes
Nant Llewenydd
Cyfeirir at hon yn nogfennau Ystrad Marchel yn y 13 ganrif fel ffin rhan o'i tiroedd,ac yn ddiweddarch i nodi rhan uchaf Careinion Fechan.Llewenydd ac nid y Llywelyn a welir weithiau, yw y gair cywir
Nant y Gigfran.
Ar un adeg hon oedd ffin isaf y rhan o Gaereinion Fechan ar ochr ddwyreiniol y Ddyfi.
Nant Camlan Isaf.
Gan fod hon yn nant tipyn o faint y mae yn bosibl bod enw arall arni yn yr amser a fu,er nad oes un i'w weld mewn hen ddogfennau.
Nant Linau.
Credir mae o'r gair llinyn y daw yr enw,ond y mae rhai o'r farm mae 'Cwm Llynoedd' yw tarddiad Cwmllinau, gan fod nifer o'r rhain wedi ei croni ar gyfer y pandai.
Nant Abergwybedin.
Hon a Nant Llwydo oedd Ffin orllewinol Caereinion Fechan yn y Canol Oesoedd.

Afon Clywedog / Cleifion.
Tarddiad y gair yw 'Clyd' ac 'Afddwyn',a diddorol nodi mae dyma yr enw mwyaf poplogaedd ar afon yng Nghymru.Credaf bod tua chwech i gyd, a thair yn yr ardal hon.
Afon Dugoed
Nant y Dugoed y gelwir hi weithiau.
Nant y Bitfald.
Cae wedi ei neulltuo ar gyfer cadw anifeiliaid crwydredig oedd y Bitfald,yn tarddu o'r Sesneg 'Bit a Ffald', sef corlan fach.
Nant Cyrnog
Gan fod dŵr mor brin a adegau sych i droi y pandy a melin Cwm Cewydd yr oedd holl ffosydd cyfagos wedi ei troi i mewn i hon.Dyna efallai yw tarddiad y gair, 'cyrnog',clapiau a adawyd drwy agor y ffosydd
Nant Saeson.
Ni wyddon y cysylltiad ar estroniaid, ag eithro bod y fferm gyfagos ar un adeg yn eiddo dau Sais.
Afon Tafolog.
Dail tafol mae'n debyg,er fod ambell i awgrymiad arall wedi codi o dro i dro.
Nant Gweinion.
Gwaun y tarddiad yr enw hwn
Nant Cwm Cewydd.
Nant yr Halen.
Nant sydd yn rhedeg i lawr o Foel Fallwyd ar gyrion y pentref.Yn ôl traddodiad yr oedd blas chwerw ar y dŵr.
Afon Cerist.
Nant Bryn Marchog.
Credir bod brwydr wedi cymeryd lle ar y bryn hwn.
Nant Graig Wen
Pistill Gwyn yw yr enw a roddir ar y rheaadr trawiadol sydd yn lifo dros y graig ar ôl cyfnod o law trwm.Enw digon cyffredin am raeadr yw pistyll, ond fel y nodwyd eisioes yn mae yn fwy tebygol mae y garreg wen yn y graig yw tarddiad yr enw yma.Ceir Pistyll Gwyn yn ardal Llanymawddwy hefyd,ac efallai mae y dŵr gwyn yn disgyn dros y graig yw tarddiad hwn.
Nant Coll
Nant sydd yn aml o'r golwg yn y mawndir, neu ddim ond i'w gweld ar lifogydd.
Nant Maesglase
Nant Dolhir
Nant Pen y Graean
Nant y Graean yw yr enw ar lafar,ac yn tarddu o safle cloddio cynnar am gerrig ar Foel Dinas
Sychnant.
Nid oes anghen egluro mae dim ond ar lifogydd y gwelir llawer o ddŵr yn hon.
Nant y Cae
Nant Llwydyn.
Nant Cwm yr Eglwys
Nant Pen y Graig.

Afon Cywarch.
Afon Hengwm.
Nant Dwyfron
Dunant.
Y mae dau bosibilrwydd i'r enw,un a'i 'Nant Ddu' oherwydd y cloddio am fawn ar un adeg, neu 'Dwy Nant'
Nant Ty'n y Fedw.
Nant Sebon.
Anodd bod yn siwr a'i lliw y dŵr yn dod o byderau trin crwyn yw y tarddiad.Yr oedd nifer o blanhigion lleseuol hefyd yn tyfu ar ei glannau.Awgrymir hefyd bod y garreg 'sebon' a chysylltiad,er nad oess sail ei bod i'w gweld yma.
Afon Gelli.
Nant yr Aber.
Nant Terwyn.
Nant y Fedwen.
Nant y Rhiw.
Nant Rhisgol Goch.
Nant yr Anges.

Afon Angell.
Nant Mynach
Nant Blaen Cwm
Nant Ddu.
Nant Cwm Rhedynog.
Nant y Nôd.
Credir bod hwn yr un tarddiad a Nantnodyn.

# Dehongli Hen Enwau.

Gan fod egluro ystyron enwau yn bwnc sydd wedi creu diddordeb ymhlith arbenigwyr am dros ganrif bellach, teimlaf na ddylwn fanylu yn ormodol arno,na phori mewn maes tu hwnt i fu ngallu. Y mae nifer o enwau o fewn plwyf Cemais nad yw'r arbenigwyr yr wyf wedi holi yn ei cylch yn barod i roi eglurhad pendant am ei tarddiad,ac yn sicr nid y lle i rhywun fel fi yw mynegi barn heb gadarnhad academaidd.

Y cyfan yr wyf am wneud yma y nodi gymaint o wybodaeth a sydd wedi ymddangos ar enwau lleoed y plwyf dros y blynyddoedd,a hefyd rhoi ar gof a chadw y rhai sydd yn ddiflanedig bellach,fel hen dyddynnod. Dros y blynyddoedd y mae enwau yn newid ei ffurf,weithiau oherwydd dylanwad y dafodiaith leol,(fel yr 'a' yn mynd yn 'e') neu talfyriad,a'r sillafu yn cael ei andwyo wedi bod drwy ddwylo rheithoriaid plwyf a chlercod cyfreithwyr nad oedd yn gyfarwydd, nac yn cymeryd diddordeb, yn yr iaith Gymraeg.

Gan mae Lladin oedd iaith y ddwy garfan yn y Canol Oesoedd rhaid derbyn mae cymysgedd o'r hen Gymraeg a'r dull swyddogol o gofnodi yw tarddiad y mwyafrif. Yr enw 'Cemais', yn ei amrywiol ffurf, yw yr un sydd wedi bod yn destyn trafodaeth yn yr ardal ers nifer o flynyddoedd bellach. Yn sicr nid y gair sydd yn cael ei arddel heddiw yw yr un cywir,ac y mae nifer o'r trigolion yn awyddus i weld y Cyngor Sir yn cymeryd y cam cyntaf ac yn codi arwyddion sydd wedi ei sillafu yn gywir ar gwr y pentref.

Digwyddiad anffodus yw bod Cemais,Môn,a Cemais,Penfro a'n Cemais ni,ac ambell i un arall llai pwysig,yn cael ei nodi ar hen ddogfennau o'r 14 ganrif,ond ni ellir gwahaniaethu rhyngddynt,er bod y tri o'r un tarddiad.

Yr wyf felly wedi mabwysiadu y sillafu 'Cemais' fel yr un sydd agosaf at y gwreiddiol,ac am geisio cyfiawnhau fy newis drwy edrych ar y gwahanol enwau sydd wedi ymddangos ar hyd y canrifoedd.

## Cemais.

Y mae Syr Ifor Williams yn ei astudiaeth o enwau lleoedd yn niwedd y 1940au yn rhoi eglurhad tra gwahanol i darddiad yr enw i beth gafwyd gan Dr. W. O. Pugh yn 1803.Yr oedd Dr. Pugh o'r farn mae ystyr yr enw oedd Chwaraefa sef "*a circus or amphitheatre*" drwy gyfuno 'camp a maes ', hynny yw, 'maes chwarae',neu 'maes camu',gan,meddai,' fod nifer o'r cylchoedd chwarae hyn i'w canfod eto yma ag acw ar hyd y plwyf'.

Y mae dehongliad Syr Ifor Williams yn anelu at gyfeiriad hollol wahanol, gan ddweud y ceir y gair 'camas,neu 'Cemais, yng Nghymru ac Iwerddon,a gwelwyd ef gyntaf yn un o hen gerddi Taliesin. Ystyr 'Camas',meddai,yw tro mewn afon,neu fforch neu blygiad ynddi .Ceir 'Ath-an-chamais' yn y Wyddeleg, sef 'Rhyd ar y Cammas',fel 'Rhyd y Gemmaes' ,Llanegryn. Yr un gair mewn ffurf gynharach yw 'Camboise' yn Cumbria.

Gellir Cemaes yn y Gymraeg fod yn lluosog 'Camas',neu yn unigol *'of the camas'*.Y dueddiad yng Nghymru oedd troi pob un yn Cemaes er mwyn cael rhyw fath o ystyr trwy gynnwys 'maes'.Nid oes dim cysylltiad a thir;cilfach,neu gongl,neu dro mewn afon yw 'Cemaes',a dylid ei sillafu yn 'Cemais' gan mae hwn yw y nesaf at y gwreiddiol. Aneddfa ger tro yn yr afon,felly,yw y Cemais hwn,a roddodd ei enw i'r plwyf yn ddiweddarach. Pan adeiladodd Lewis Annwyl ei dy 'Cemais Bychan' yn 1642 y mae yn mabwysiadu enw yr aneddfa a dyfodd ger yr afon ar gyfer un llai i'w deulu.
Yn sicr y mae nifer o droadau yn yr afon ger y pentref,ac y mae y tarddiad hwn yn ddigon derbyniol. I'r rhai sydd yn benderfynol o gadw at y gair 'Cemaes',o leiaf dylid cofio nad yw y llythyren 'M' yn cael ei dwbi yn y Gymraeg gyfoes,ac nid oedd esgus o gwbl dros y 'Cemmaes' a welwn yn ysgrifenedig mor aml.

Y Cyfeiriad swyddogol gyntaf a geir yn defnyddio y gair yw 'ecclesia de Kemmeys' yn 1150,Kenuneys yn 1393,a Kemes yn 1545.Ceir pob amrywiaeth bosibl ar y sillafu,ond gyda 'K' yn ddieithriad hyd at ddechrau y ddeunawfed ganrif. Y mae yn cael ei sillafu fel 'Remis' ar fap John cyntaf John Speed ,ond bai y llin gerfiwr platiau oedd hyn,ac fe gafodd ei gyweirio erbyn yr ail gyfrol yn 1583.
Y dyddiad cyntaf ble y mae y sillafu yn newid i 'Cemes' yw 1719,ond ganrif yn gynharach yr oedd arwyddion bod y dafodiaith leol yn raddol newid yr 'is' yn 'es',gan newid enwau fel Machynllaith yn Machynlleth.Yn dilyn cyhoeddiad Lewis Topographical Dictionary of Wales' yn 1811 fe ddaeth yr enw 'Cemmaes' yn adnabyddus,am y rhesymau y cyfeiriwyd atynt eisoes.

**Cwmlline.**

Ceir y cyfeiriad cyntaf at y pentref yn y 16fed ganrif fel 'Cwm Llyney,ac 'Aberlline' yn 1573 yn y 'Cyfeiliog Survey'.O'r un ffynhonnell ceir tyddyn 'Aber llyney',ac unwaith eto gwelir y sillafu fel 'Kumline';Cwm,neu afon Llinau ,ac y mae dau awgrymiad i'r tarddiad;afon droellog fel llinyn,neu nifer o lynnoedd a gronnwyd yn 'Waun Linau'.
Ar garreg fedd yn eglwys Cemais yn nechrau yr 19fed ganrif ceir y gair 'Cwmllynau',a chan fod yr 'a' yn mynd yn 'e' yn y dafodiaith 'Cwmlline',ac nid 'Cwmllinau' yw y gair ar lafar gwlad. Y mae y ddau yn ddigon derbyniol,gyda dieithriaid,gan amlaf yn defnyddio yr ol

## Comins Coch.

Nid oedd yr enw mewn bodolaeth tan ddiwedd yn ddeunawfed ganrif pan y cyfeiriwyd at yr ardal yn nghoflyfrau yr eglwys fel 'Twymyn Common'.Tarddiad yr enw 'Comins',wrth gwrs, yw y tir cyffredin a oedd yn agored i bawb ei bori,or Saesneg *'Common'*.Tyddynnod a godwyd arno pan ddechreuwyd ei gau i mewn oedd 'Comins Gwalia, 'Comins Bach,a 'Comins Pant Glas',ar 'Comins Coch,gwreiddiol oedd yr ucheldir. Y mae nifer o awgrymiadau pam y mae y gair 'coch' yn cael ei ddefnyddio ar ddarn o dir,efallai am ei fod yn cael ei aredig,'tir coch',neu lliw y tirwedd ar adeg arbennig o'r flwyddyn.

Tua diwedd y 18fed ganrif nid oedd ond dwsin o dai y ddwy ochr i'r afon,sef
Ty Cerrig,Ty Gabriel,Meinigwynion, Y Felin a Throed y Rhiw ym mhlwyf Darowen a'r Pandy,
Ty'n Cae,Ty Griffydd,Ty Dic Ifan,Ty Newydd,Ty Shadrach a Cae Gidog Fach
ym mhlwyf Cemais. Ni ddaeth y Comins Uchaf a Comins Isaf i'r amlwg nes y cynyddodd maint y pentref ar ddyfodiad y rheilffordd yn yr 1860au.

Yn Nghof nodau Sesiwn Fawr Maldwyn yn yr 1650au cyfeirir at y bont dros yr afon Twymyn sydd yn cysylltu a ddau blwyf fel ' Pontgochwalcock' a 'walicocke'.Y tarddiad mwyaf amlwg yw pont a godwyd gan rhyw 'Will goch',neu rhywun o'r enw 'Wallcock',ond y mae y gair 'coch' ddwywaith yn yr enw yn gwneud i rhywun amau fod ystyr arall iddo. Byddai yn ddiddorol gweld a oedd yr enw diweddarach arni yn y cofnodau hyn gan ei bod angen cynnal a chadw yn gyson,ar plwyfolion yn gwrthod ymgymerwyd a'r gyfrifoldeb.

## Gwernbwlch, Brynuchel, Tafolog.

Y mae enwau y tair drefgordd yn tarddu rhywle yn yr oesoedd cynnar, ond ni cheir cyfeiriad ysgrifenedig atynt cyn y 'Survey' yn niwedd yr 16 fed ganrif.'Gwern y Bwlch' oedd yr enw ar yr ucheldir yn y rhan ddeheuol a Brynuchel ar y rhan ogleddol ond fe roddwyd yr un enw i ffermdy ble yr oedd y ffin yn ymuno a phlwyf Llanbrynmair a throsodd i Dafolog heibio Gerddi Gleision.

Er bod yr enw Tyfolog wedi cael ei ddefnyddio yma ag acw,Tafolog yw yr un mwyaf adnabyddus,ar gred gyffredinol yw mae y tarddiad yw Cwm ble y tyfai llawer o ddail tafol.

**Enwau Personol**

Ceir nifer o enghreifftiau ble y mae yr enw yn tarddu o unigolyn a oedd yn berchen,neu a chysylltiad ar lle rhywbryd yn y gorffennol.

**Moel Eiddew.**

Y mae hwn yn fwy tebygol o fod yn tarddu o enw person yn hytrach na 'eiddew',y gair lleol am y planhigyn iorwg.

**Gallt Einion Goch.**

Ni wyddom a oedd y person hwn a chysylltiad ag Einion ap Sesyllt, a oedd yn dal ar brydles y tir 'Rhwng Dyfi a Dulais yn yr 13 fed ganrif, ond fe gollwyd y gair olaf ar lafar dros y blynyddoedd.

**Cae Talhaearn.**

'Catel' yw yr enw ar lafar am y ffermdy hwn gyferbyn a Gallt Einion,ac y mae yn ddigon rhesymol derbyn ei fod yn berchen i rhyw 'Dalhaearn' rhyw dro. Y tro hwn yr enw ar lafar yw yr hynaf ac y mae 'Catel',yr enw sydd ar fap y degwm,yn tarddu o frwydr 'Kaetel' yn y 9fed ganrif.

**Brynmeurig**. Enw personol eto na wyddom ddim am y sawl a roddodd ei enw iddo.

**Maesmachreth** .Hawdd derbyn mae maes rhywun or enw Machreth sydd yma,ond 'Maesmache' yw yr enw yn achau teulu yr Herbert a oedd yn byw yno yn niwedd y 15fed ganrif .Maesmachia a welir ar ddogfennau y degwm,ac un cymharol ddiweddar yw yr enw presennol.

**Caegidog.**

Ni wyddom pwy oedd y Gidog hwn gaeodd cae o'r comin,ond y mae Caegidog Fawr bellach yn fferm,ond newidiwyd tyddyn Cae Gidog Fach yn 'Ty Bach',ac yn ddiweddarach i Dolgelynen.

**Ceilwyn**

Y mae yn ymddangos ar yr olwg gyntaf mae 'celyn+lwyn' yw y tarddiad. Tybed a'i yn y fan hon yr oedd y goeden gelyn hynafol y cynhelid cyfarfodydd pregethu oddi tani yn y 18fed ganrif.

**Pantyno**

Tir wedi ei gau i mewn a'i aredig yw 'tyno' a cheir cyfeiriad ato mewn nifer o gywyddau yn y Canol Oesoedd. Ceir y gair eto fel 'Tynohir' ym Mro Ddyfi .Pant wedi ei gau i mewn o'r comin yw tarddiad yr enw ar y tyddyn ar lan afon Twymyn.

**Talyrnau**

Talwrn ble y byddai ymladdfa ceiliogod ac anifeiliaid yn cymeryd lle. Tylyrne ar lafar gwlad,ond 'Telene' ar fap y degwm.

**Ty'n yr Wtra.**

Darn o ffordd yn cysylltu y tyddyn a'r tîr agored ,ac yn ddiweddarach y ffordd ,oedd yr 'wtra'.Daw o'r Saesneg '*Gutter*',am nad oedd lawer mwy na chwter i gario dwr yn aml.

## Caethgen

Hawdd iawn yw edrych ar yr enw fel 'Cae-aethgen' fel y gwelir ef ar fapiau,ond y mae y tarddiad yn llawer hynach a mwy diddorol. Lle ble yr oedd 'caethion' yn byw,y *'bondsmen'*,pobl heb hawliau, ond yn cael gweithio tiroedd a roddwyd o'r nelltu iddynt gan Arglwydd y Faenol.

## Gwalia.

Ni ddaeth yr enw hwn i fodolaeth tan ddechrau yr 19fed ganrif pan y defnyddiwyd ef gan feirdd a llenorion fel enw am Gymru. Y mae yn gyfieithiad o'r Saesneg 'Wales' wrth gwrs,ond y mae ei darddiad o'r hen Almaeneg,'Wal,' yr enw a roddwyd ar yr estroniaid tu cefn i'r wal.

## Abercydidill

Yr enw ar lafar gwlad ar yr hen ffermdy ar gyrion Cemais sydd bellach wedi ei ddymchwel. Aber-cae-du-dywyll,yw yr enw ar fap y degwm.

## Lluest Wen

Nid yw yr enwau 'Hendre' a 'Hafod' wedi aros ar unrhyw ffermdy yn y plwyf hyd heddiw,ar unig rai ar ddogfennau y degwm yw,'Ffridd Hafod Wynt',a Hendre Fach,a cheir Cae Hendre, Blaen Tafolog,ar restr Arolygwyr am 1787.Yr oedd yn arferiad yma ,fel bob man arall, fynd a'r anifeiliaid i bori ar dir agored yr ucheldir yn yr haf ,ac yr oedd y rhain yn ddigon agos i'r ffermdai i deithio yno yn ddyddiol. Nid oedd angen 'Hafotai' i breswylio ynddynt am gyfnod o wythnosau neu fisoedd, dim ond rhywle i gysgodi dros nos neu ychydig ddyddiau. Os bu yr 'Hen Dref',y cartref parhaol yn enw ar fferm yma erioed yna fe newidiwyd hwy cyn cyfnod y Degwm.

Lloches o frigau a brwyn oedd y lluest,a dim ond 'Lluest Wen', a dyfodd yn dyddyn fel yr oedd yr ucheldir yn cael ei gau i mewn yn raddol. Ceir dwy 'Lluest Ty'n yr Wtra' ble y codwyd beudy o bosibl,a Moel Hen Luest uwchben,ond yr unig un arall y gwyddom amdano yw 'Boncyn Lluest' yn Nhafolog.

## Blaenplwyf

Fe ddaeth y ddau enw,yr uchaf ar isaf, i fodolaeth pan roddwyd darnau a Gaereinion Fechan ar yr ochr ddwyreiniol i'r Ddyfi i blwyf Mallwyd. Aber Llewenydd,nid 'Llewelin' fel y gwelir ar fapiau, oedd enw y cyntaf, a Drainllwydion ar y llall,ac fe barhaodd yr olaf ochr yn ochr ar un newydd hyd at ddiwedd y 19fed ganrif.

## Gelliau

Y lluosog am 'Gelli',coedwig fechan.

## Cwmeidrol

Hen dy a llawer o hanes iddo mewn llecyn agored braf .Daw yr enw o Cwm-Meidrol, ac ystyr 'meidrol' yw diwedd y cyfan,y 'finite' Lladin,ond yn y cyswllt yma ble y mae y cwm yn diweddu.

## Aberhirieth

Er fod y tŷ rhai cannoedd o lathenni o'r fan ble y mae y nant-hir-faith in lifo i'r afon yr oedd yn gartref pwysig,bron o raddfa plasty, yn niwedd y Canol Oesoedd Adeiladwyd yr 'Hall' gan y Mostyniaid, peth tebycaf tua diwedd y ddeunawfed ganrif,ond adeilad o'r 1850au yr Llwynhirath ac y mae y sillafiad yn wahanol,ac o bosibl hwn yw yr enw gwreiddiol. Collwyd y rhan olaf,a'r 'Llwyn' yw ei enw bellach.

## Typoeth

Hawdd yw derbyn yr enw yn llythrennol oherwydd ei leoliad cynnes,ond dywed rhai fod unrhyw enw yn cynnwys y gair poeth yn arwydd bod y derwyddon wedi bod yn aberthu yno. Nid enw diweddar yw chwaith,nodir ef ar fap y degwm,ond yr hen enw arno oedd Asyllfa,ac yr oedd hwn yn parhau ar lafar mor ddiweddar a diwedd y ganrif.

## Rhyd Aderyn a Rhyd y Gwiail.

Lle i groesi nant neu afon yw rhyd ac yn air cyffredin mewn mewn enwau lleoedd. Ni wyddom pa aderyn y cyfeirir ato yn y cyntaf,ond y mae tarddiad yr ail yn ddigon amlwg. Yr unig enw arall yw **Rhyd y Pebyll** sydd yn croesi nant Craig For. Awgrymodd rhyw Sais, yn hollol anghywir yn ddiweddar mae ei darddiad oedd bod milwyr yn byw mewn pebyll yno ar un adeg ,ond cafodd ei enw am mae yma yr oedd brwyn a dorrid ar gyfer gwneud canwyllau brwyn, neu bebyll brwyn..Y mae yr enw wedi ei golli erbyn heddiw,ond yr oedd yr hen ffin rhwng Cyfeiliog a Mawddwy yn dilyn y nant i Flaen Tafolog. Craig Fawn oedd yr enw ar y tyddyn yn yr 1840au

## Clygo

Dyma un enw na welais eglurhad derbyniol iddo. Efallai ei fod yn tarddu o 'Clogwynau' neu fod y mynydd uwchben fel 'clogyn' iddo.

## Dolfonddu

Dol y Fron Ddu y y tarddiad,ac y mae y llethr coed a roddodd yr enw yn parhau hyd heddiw.

## Esgair Ddu

Mewn enwau lleoedd y mae gwyn yn nodi lleoedd agored heulog a du yn hollol i'r gwrthwyneb,ond gan fy mod mor gyfarwydd a syllu ar hwn ar hyd y flwyddyn tarddiad yr enw yma yw lliw y twmpiau o grawcwellt yn y gaeaf.

## Waun y Gath.

Darn o dir comin islaw y ffordd rhwng nant Ffridd Fawr a phont y rheilffordd.

## Tyddynnod Colledig.

Yn ystod y can mlynedd a hanner ddiweddaf y mae y ffermydd wedi eangu a chollwyd nifer o dyddynnod a oedd mewn bodolaeth yn nechrau yr 19fed ganrif. Yma ceir rhestr o'r rhai a nodir ar fap y degwm a'i lleoliad cyn iddynt fynd yn hollol anghofiedig.

**Cambio.**

Tyddyn ar yr hen ffordd o'r Rheithordy i Aberhirieth. Ni chefais eglurhad gan yr arbenigwyr i darddiad yr enw,ond efallai bod cysylltiad a 'camp' ble y cynhelid chwaraeon,sydd wedi ei grybwyll eisoes wrth drafod yr enw 'Cemmaes'.

**Beudy Bach**.

Tyddyn ger rheithordy Cemais,

**Cae'r Ceiliogau.**

Tyddyn, eto yn yr un lle, ble y magwyd ceiliogod ar gyfer ymladdfa.

**Pendrawllan.**

Ty,efail y gof,a dau gae,y cyfan tua 5 acer ger y fynwent,Y mae yr adeilad,o goed a phlaster,sydd yn awr yn cael ei adnewyddu ymhlith yr hynaf yn y plwyf.

**Stylcie.**

Ni welwyd yr enw erioed ar fap,na dogfen, ac os oedd tyddyn yma yr oedd wedi diflannu cyn cyfnod map y degwm. Roddir yr enw i'r darn o ffordd rhwng Dolcorslwyn a Ty Rhos,ond y mae mewn perygl o gael ei golli yn fuan iawn. Tybed a'i o 'stwlcie',cafnau i fwydo anifeiliaid, y daw y gair

**Rhosydd Caled.**

Rhyw ddeg cyfer o dir uwchben y ffordd a oedd yn rhan o Dolybont erbyn amser map y degwm. Yr oedd gerddi yn ar un adeg ac y mae yr enw yn un digon addas siwr.

**Weirglodd Newydd.**

Tir wedi ei gau i mewn ar gyfer ei drin rhwng Tylyrne a Chwmeidrol.

**Brynglas.**

Glas oedd yr hen enw am borfa wyrdd,sef y 'gwellt glas' neu 'gwesglas' ar lafar gwlad.

**Gerddi Gleision.**

Tyddyn yn Nhafolog, yr enw o'r un tarddiad,sef caeau wedi ei neilltuo ar gyfer cynhaeaf gwair neu lysiau gwyrdd.

**Rhyd y Gerrig Gwynion.**

Tyddyn trigain erw ar lan y Twymyn rhwng Glyntwymyn a Phantyno. Yr oedd nifer o gerrig gwynion yn yr ardal hon ac yr oedd hen goel bod rhain yn cadw ysbrydion drwg ymaith ,ac efallai bod rhyd wedi ei gosod o gerrig gwynion,neu wythïen naturiol yn yr afon .Chwalwyd y tŷ pan aeth y rheilffordd drwodd yn 1862.

**Cwm Cottage**.

Tyddyn tair erw yn yr un lle. Galwyd ef yn Ty'n y Wern yn ddiweddarach,er fod fferm or un enw,fel y gwyddom, ger Cwmlline,ond ni fu yno yn hir.

**Dol'sgellog**

Rhan o dir Pengwern erbyn hyn ond yr oedd tyddyn o 7 acer ar lan yr afon yma mor ddiweddar ar 1930au. Y mae yr adeilad bellach yn ysgubor ond wedi eu Restru yn Raddfa 2

**Gallt y Bililfa**

Nid wyf am geisio esbonio enw y tyddyn hwn ym Mlaen Tafolog.

**Cwm Cae.**

Fferm fychan ger Troed y Ffordd yn y Waun.

**Tymyle.**

Deunaw acer oedd maint y tyddyn hwn rhwng Caegidog Fawr a Ffridd Fawr.

**Cynllys.**

Ni ellir bod yn sicr o leoliad y fferm hon ond ei bod yn ffinio a Fachucha. Y mae hanes bod efail yma rhywbryd yn y gorffennol,ac efallai yn tarddu o 'hen lys'.

**Cae Cwm Hendre.**

Tyddyn ble y mae y ffordd yn troi i fynnu am Brynuchel.

**Drws y Nant.**

Nid oes cyfeiriad at hwn ar fap y degwm ond fel un cae gan ei fod yn rhan o diroedd Cwmeidrol, ond yma y dechreuodd y mudiad Methodistiaid gyfarfod. Y mae 'drws' mewn enw lle yn cyfeirio at agoriad ble y mae cwm yn agor allan .Yr oedd rhywle rhwng Cwmeidrol a Blaencwmlline.

**Beudy Newydd**

Rhwng ffermdy presennol Dolcorslwyn a Brynuchel,yn enwog fel lle cyfarfod yr Ymneilltuwyr cynnar.

**Gelli Wen.**

Fferm drws nesaf i Ty Mawr,Tafolog. Yr oedd un Edward Griffith yn ei pherchen ac yn byw yno yn 1842.Coedwig mewn lle agored heulog yw y tarddiad.

**Ty'n Llan,**

Ni wyddom ble yr oedd yn y pentref ond yr oedd Jane Edwards yn byw yno ym 'mlwyddyn y tair caib', 1777,ac mae'n rhaid ei bod yn wraig a chryn ddylanwad oherwydd yr oedd yn un o Arolygwyr y plwyf y flwyddyn honno.

**Tyrwbia.**

Ni wyddom ddim am hwn chwaith a oedd ar y rhestr flwyddyn yn gynharach

**Castell Bach**

Tyddyn ar lethrau Esgair Ddu rhwng Ty Nawr, Mallwyd a Craig y Gronfa Yr oedd yn wag erbyn 1840 ond y muriau yn parhau yn 1910 pryd y nodwyd mewn Adroddiad Henebion bod yno bobty a ystyrid yn werth ei nodi. Chwalwyd ef ddechrau yr 1920au a chludo y cerrig i adeiladu muriau mynwent newydd Mallwyd

## Afonydd a Nentydd Cemais

Gan amlaf y mae nentydd yn derbyn enw y cymoedd y maent yn rhedeg drwyddynt ond y mae ambell i eithriad,fel enw fferm gyfagos. Nodir yma y rhai sydd ar fapiau yr Ordnans.

**Afon Twymyn.**

Gwelir yr enw fel 'Taymen' mor gynnar a 1287,a'r tarddiad yr enw yw 'dwfr twym' mae'n debyg ,o'i gymharu ac afon Iaen sydd yn oer.

**Nant Goegen.**

Hen enw ar rhywbeth gwag yw 'goeg',fel 'c'neuen goeg',a chafodd yr enw am ei bod mor brin o ddwfr yn ystod hafau sych. Melin Goegen oedd yr enw ar un Cemais ac y mae y nant yn rhedeg drwy y pentref

**Nant Llewynydd.**

Soniwyd am hon eisoes,'Llyfenydd' oedd yr enw ar hen ddogfen o'r 13fed ganrif,ond 'Llewelin' sydd ar y mapiau cyfoes sydd yn anghywir a dylid ei newid yn y dyfodol.

**Nant y Gigfan.**

Rhed hon i'r afon Ddyfi gyferbyn a Aberangell.

**Nant Cwm Gast.**

Rhed i afon Linau heibio Brynuchel.

**Nant Waun Coch a Nant Goch Oer.**

Y mae y gyntaf yn ymuno a'r llall a gelwir hwy yn nant Hiraeth. in îs i lawr.
Ymhlith y gweddill ceir nant Y Waun,nant Ffridd Fawr,nant Gwern Bwlch,nant y Creigiau, nant Waun Gau,nant Ffordd Du'r Mawn,Nant Waun Fign,a nant Craig For.

## Llynnoedd Afon

Ag eithrio newid bach yma ag acw Afon Ddyfi yw ffin ogleddol y plwyf. Dyma enwau y llynnoedd o bont Mallwyd i bont Mathafarn.

**Llyn Garreg Fraith**

Yn union dan bont Mallwyd,cafodd yr enw am fod gwythïen o lechen hardd ynddo,ac oddi yma y daeth y garreg sydd ar allor eglwys Mallwyd yn 1777.

**Llyn Du.**

**Llyn yr Onnen**,gelwir ef bellach yn 'Tree Pool' gan fod llyn o'r un enw ger Aberangell.

**Llyn Craig y Gronfa,Llyn Gwernhefin,**

**Llyn Cesig.**

Cafodd yr enw diddorol am fod dwy gaseg wedi boddi ynddo yn ystod cynhaeaf rhyw dro wedi iddynt cael ei gwylltio gan y pryf 'robin y gyrrwr' a charlamu i'r afon.

**Llyn Dol'sgellog,Llyn Penisyraber,Llyn Graig,Llyn Onnen,Llyn Stylcie,**

**Llyn Ty'n Llechwedd,Llyn y Glen,Llyn Plas Aberhirieth,Llyn Twymyn,Llyn Geulan Goch,Llyn Ty'n Coed.**

# Enwau Caeau Cemais

Yn yr amser a fu pan yr oedd llawer o dyddynnod bychain a chaeau yn fach a niferus yr oedd gan bron bob un ei enw. Fel yr unwyd y tiroedd ac ehangu maint y caeau i hwyluso amaethyddiaeth yn oes y tractor collwyd yr hen enwau,ac mewn llawer i blwyf ychydig iawn sydd ar gof a chadw bellach. Y mae Cemais wedi bod yn eithriadol o ffodus gan fod map y degwm wedi ei gynllunio gan William Parry,arbenigwr o Lanidloes,ac er ei fod wedi gadael allan nifer o adeiladau y mae yn glir a chywrain. Beth sydd yn werthfawr iawn hefyd yw bod bob cae yn y plwyf wedi ei rhifo,dros ddeuddeg cant i gyd,ac yn cael ei nodi wrth ei henwau ar y ddogfen dreth.

Y mae olrhain enwau caeau yn bwnc eithriadol o ddiddorol,yn bennaf am yr amrywiaeth o ddisgrifiadau a roddir iddynt. Y mwyaf cyffredin yw ei maint,fel 'cae mawr','cae bach',a 'cae cul',ac yna ei llun fel 'cae hosan' 'cae pig' a 'cae delyn'.Yr oedd ei pellter o'r ffermdy yn rhoi enwau fel 'cae pella','cae isaf' a 'cae dan tŷ',a weithiau roddwyd enw am fod beudy neu ffynnon,neu felin yno. Diddorol hefyd yn sylwi fod y bron y cyfan, ag eithrio y mwyafrif o gaeau Dolcorslwyn,yn enwau Cymraeg.

Yr oedd beth a dyfwyd yno fel 'cae brwyn',cae banadl,'cae eithin' a 'cae clofer' yn dylanwadu ar yr enw a roddwyd,ond ymhlith y mwyaf diddorol oedd y nifer o weithwyr a oedd ei hangen i'w bladuro fel 'gwaith wyth dyn',a 'gwaith pum gwr'.Yr un mwyaf anghyffredin yw 'cae cwpan a soser' i ddisgrifio cae cymharol grwn ei ffurf a chlwstwr o goed yn ei ganol .Enw arall anghyffredin oedd 'Llawedrog'. Credir mae Pengwern oedd y fferm olaf yn y plwyf i dorri mawn a'i sychu yn danwydd,a hynny tua diwedd y 1930au,ac yn siwr nodir 'Cae Mawn' ymhlith yr enwau yno.

Nid oes angen nodi y mil a rhagor o enwau sydd ar y ddogfen degwm, gan fod llawr yn ddigon tebyg,ond dyma draws-doriad o enwau,a welwyd ar gyfer y gwahanol ffermydd. Tybed faint sydd yn bodoli heddiw.Gadewir i'r darllenwyr benderfynny tarddiad yr enwau hyn a defnyddiwyd y casgliad ar gyfer y llyfr Caeau a Mwy, cyhoeddiad gwaith canghenau Merched y Wawr ar enwau caeau yn 2014

**Aberhireth.**

Cae Falen,Cae Melin Ucha',Ffridd Newydd,Cae Cydio'r Gwartheg, Pylei Helyg.

**Maesmachia**

Cae Pen Machia, Hen Ffridd,Gweirglodd Adam,Dol Ithel,Cae Pen y Geulan.(Fe gafodd hwy ei enw am fod cwrs afon Ddyfi yn rhedeg lawer yn agosach ar y ffordd ar un adeg a chariwyd llawer o raean oddi yno dros y blynyddoedd)

**Cemais Bychan.**

Dol y Llestr,Dol y Lloi,Dolydd Llynwydd,Gro Isa,Lle'r Pandy,Dol Groes.

**Cae Ceiloga**
Cae Bitfel,Cae Bach y Coed,Cae Ffynnon,Gweirglodd Wen,Cae Main.

**Gribin.**
Gweirglodd Mennis, Gweirglodd Bennoda,Gelli Glo,

**Pentre Celyn.**
Gwaith Wyth Gwr,Gwaith Pump Gwr,Cae Melin,Cae Glas.

**Glyntwymyn.**
Bryn Caled,Cae'r Berllan,Cae'r Fuches,Rhos y Clai,Pant y Llifio,Twyn Pistyll.

**Rhydaderin.**
Llain,Fedw,Cae William Lewis,Cae Tri Chornel,Ffridd y Dderwen,Blaen Pistyll.

**Aber-cae-du-dywyll.**
Fawnog,Rhos tŷ Ffwrn,Cae Bach y Nant,Cae Miarog,Cae Point.

**Gwern y Bwlch.**
Gwaith Chwech Gwr,Gwaith Saith Gwr,Erw Wen,Fawnog Eithin,Dol Frwynog.

**Pengwern.**
Cae Cerrig,Cae Gath,Rhos Cyffylog. Cae Cyffylog,Cae Mawnog.

**Bryn Uchel.**
Briththir, Tan Gorlan,Rhysgie, Rhos Goch,Rhos 'Adder'.

**Cwmeidrol**
Yr Ardd Wenith,Ffridd Felen Fach,Gwernhidl Fach, Cacau Bychain, Grondws Mawr.

## Ffermydd a Thyddynod a Nodir ar Ddogfen Rhent y Faenoriaeth,1787.

**Cerist**
Mawnog Ucha.
Maes y Glogwyntre
Hafod Wyon
Parc.
Tynypwll..
Ty Du.
Rhinie.
Mawnog ias.
Brondirion.
Bryn Cerist.
Ty'n y Ceunant.

Gwern Llygoden.
Dol Abram
Braichmelyn

**Camlan.**
Pennantigi Isa.
Pentrewern.
Aberdwyafon.
Gwastadgoed.
Pewnypentre.
Abermynach.
Bron Gamlan.
Camlan Ucha.
Camlan Isa a Crofft.
Dol y Foddion.
Brain Llwyd.
Maes Glas.

**Nantymynach.**
Ty Mawr.
Maes Glas a Cae Dole.
Crofft Ithel.
Llwyn Cry'r
Ty'n Braich.

Tyddyn Ucha.

Blaen y Cwm.

**Gartheiniog.**
Maes y Gamfa.
Tal y Meuryn
Hendre Ddu.
Hafod.
Esgair Angell.

**Dugoed.**
Cae Sgubor Fawr.
Cae Crythen.
Ty'n y Dugoes.

**Pennant.**
Bryn.
Ty'n y Llwyn.
Pen y Gelli
Troedyfoel.
Cae'r Dyn
Llechwedd.
Ty'n y Ddole.
Aber Rhiwlech
Ty Cerrig.
Morfa
Rhos Dwpa.
Gilrhydd.
Ty Mawr.
Llefron.
Ty'n y Nant.
Pant.

Llanerchfyda.
Trawasder.
Cwmterllllidie
Esgain y Cwm
Plas y Gwinion.
Ty Poeth.
Ty Isa.
Tynynant.
Ty'n y Ceunant.
Ty'n y Simdde.
Coed Cae.
Erw Pwll Calch
Llechwedd.

Cowarch.
Tan y Bwlch.
Pen y Bont.
Maes y Benddyn.
Blaen Cywarch
Maes Eglwys
Rhwng y Ddu Nant
Glan yr Afon.
Ty'n y Twll.
Bryn Sion.
Cae'r Ys.
Nant y Nicholen
Nant Niwlan.
Nant Nodyn.
Bedw Gwynion.
Ty Gwyn.
Ty'n y Wern.
Dunant Bach.
Nant yr Henfaes.
Bryn Glas.
Cae Peris.

Dugoed Bach.
Erw Hir.
Dugoed Mawr.
Cae Gwilliaid.
Cwrn Wrach
Tan y Bwll.
Ty Hen.
Cwm yr Haidd.
Gloddfa Goch.
Gelli Ddolen.
Nant yr Hedidd
Maes yr Allt Dd.

Mallwyd.
Ceunant.
Ty Ucha.
Tymawr.
Gweinion.
Plas ucha.
Ty'n y Fedw.

Pany y Maes.
Perth y Felin.
Ceunant.
Gassel Isa ac Ucha
Penrhyn.
Pontfaen.
Ty'n y Fedw.
Terwyn.
Pen y bryn.
Maes y Pandy
Dunant Fawr.

## Cwmcewydd.

Groes Lwyd.
Llwyn Glas.
Pant Glas.
Bwlch Pant Clud,Ucha ac Isa.
Dol y Brawdmaeth
Hendre Isa.
Caer Gof.
Gellifraith.
Castell y Praidd



# Mentr, Mwyniant, Methiant

25. 4. 2001
Camb News

**(Hanesyn am Chwarel Hendreddu, Aberangell.)**

Cwrs y "Wythien Lechfaen", ac hefyd ei chymar sef yr hon a adwaenid megis "Y Faen Fach" yn y rhanbarth hwn, a fu gyfrwng i ddwyn y datblygiad er gwell i bentref bychan disylw a distwr Aberangell, lle nad doedd dim o fawr bwysigrwydd ac eithrio y ffaith fod gwyllt rediad a rhuthr ffrydiadau yr afonig Angell, yn ogystal a llyfn dreigliad yr Afon Ddyfi yn creu rhyw linellau anweledig a adwaenid megis terfynau Sir Feirionydd a Threfaldwyn. Cyfeirir atynt bellach megis Gwynedd a Phowys.

Cyfeiriai y "Wythien Lechfaen" ei chwrs crwydredig, gwamalaith o Gymerau am gymoedd Hendreddu, ac yna esgyn am ffriddoedd Talymieryn. Rhêd ar draws buarth Blaen y Cwm ac yna cwyd am Foel Dinas lle y cyfeiria am Lanwddyn ac ardal teg Llangynog. Daw y "Faen Fach" i'r amlwg ger Hendreddu ac yna try a chyfeirio ei chwrs rhyfeddol am Faes y Gamfa. Unionir yno am Ffridd Blaen y Cwm a Bwlch Siglen cyn myned am y Portas; Pennantigi; Craig Cywarch, ac Arran Benllyn, lle y dywed yr arbenigwyr iddi ddewis ymfforchogi am ddau gyfeiriad pur wahanol. Bendithiol a fu ei darganfod yno yn Hendreddu. Bu fuddiol i'r trigolion, yn ogystal ac ardalwyr o gylchoedd cyfagos. Yn wir ymdeithiai ymgeiswyr gwaith yno yn obeithiol ac yn llawn hyder wedi lledaenu o'r wybodaeth fod y rhagolygon goruwch disgwyliad o ddisglair. Gobeithiwyd na atalid ei llwyddiant, canys proffwydoliaethwyd y dadblygid hi, trwy gefnogaeth y gweithwyr yn un o'r chwareli llewyrchusaf ym mysg eraill yng Ngogleddir Cymru. Gwybyddid i sicrwydd fod gwythien yn ei llawn faint yn llochesu yno.

Nid oes gwir wybodaeth o'r union gyfnod y cychwynwyd chwarelydda yno, ond yr oedd arolygwr o'r enw Hughes, yr hwn a gartrefai ym Mhen Pentre yn llywodraethu yno yn ystod 1854 i gwmniau bwygilydd. Pwrcaswyd y chwarel gan Syr Edmund Buchley, y barwnig adnabyddus o Blasdy godidog Dinas Mawddwy (a adeiladwyd iddo am £70,000 yn ystod 1864-67 ac a ddifawyd trwy ddifrod tân ar noson rewllyd y 31ain Ionawr 1917). Cynlluniodd eangu y chwarel yn ddioed. Sefydlwyd ganddo yn ystod 1864, pryd y cyflogwyd 140 o weithwyr yno. Pennodwyd Edward Davies (na chamgymerir gyda'r diweddar reolwr Ed. H. Davies) yn arolygwr y chwarel. Cloddiwyd bryd hynny yn ucheldir y ffridd glogwynog, a dygwyd cerrig o faintioli enfawr i oleu dydd. Cymerwyd llech 9 troedfedd gyda 4 troedfedd mewn lled (9' x 4') oddiyno yn ystod 1869. Gadawyd hi yn ddigysgod ger Chwarel Minllyn am ddwy flynedd er arbrofi ei gwydnwch i dywydd drycinol a rhew wyntoedd gaeafol gan wylio am arwyddion o bleriadau neu fan wynt - holltau. Nis darganfyddwyd bregusrwydd ynddi. Archwiliwyd hi gan y Syr, ac hefyd William Rees o Aberhirnant (ei dad yng nghyfraith) ar yr 20fed Ionawr, 1871, ac nis canfuwyd brychni nac un nam ynddi. Er hynny ni edmygwyd y rhan y cymerwyd hi ohono! Tueddai llinellau main y "traed na cherdd" i ymddangos ynddynt ac yr oedd "gwyrni" a chrwydr hollt na chyfrid yn rhinweddol. Ni hoffai y chwarelwyr lleol ddwyn cerrig o "fangre frigog". Benthycaf yma eu disgrifair hwynt eu hunain am y fath le! Ymgymerwyd ac archwil fanwl a chostus am welliantau, ac o ganlyniad, penderfynwyd creu agoriad newydd 32 llathen islaw y lefeloedd a dyllwyd eisioes yn ystod y cychwyniad Angenrheidiol fyddai "gyrru lefel" trwy gyfansoddiad yr hen graig am 157 o lathenni cyn y disgwylid pelydr o obaith ymgyffwrdd a'r wythien a ymochelai yno. Dewisodd Syr Edmwnd offrwm sialens i'w weithwyr, er annog ymroddiad i'r gorchwyl ac egni. Crybwyllodd undydd, ei fwriad ef i bennodi dyddiad arbennig, ac os, megis yr hyderai y cwblhaent y "torri trwodd" erbyn hynny, yna parod ac eiddgar a fyddai fel perchennog, i'w gwobrwyo hwynt am aberth ac ymdrechion er ei fwyn ef, a llwyddiant y chwarel honno yn gyffredinol. Addunedodd gyflwno gwledd ragorol iddynt oll ynghyd a'u teuluoedd er dathlu yr achlysur mewn llawenydd. Mynegodd ei ewyllys i gynnal y wledd, ar holl "reolti" o fewn man hwylus yn y pentref. Ymadawodd, er caniatau cyfle i'w weithwyr i drin a chloriannu y broblem a drosglwyddwyd ganddo yn syml. Bu cryn bendronni tros erchyllter ei her, ond deuwyd i gytundeb unfrydol i dderbyn ei sialens, gyda llwyr lwyddiant yn nôd i ymgyrchu tuag ato.

Cychwynwyd y twneli ar y 5ed Mawrth 1872. Edmygwyd y creigwyr am feddu yr ysbryd beiddgar, canys cyffelyb ydoedd y fentr aruthrol honno i "brynu cath mewn cŵd" ys y dywedid gan lawer. Yr oedd yn gyfnod pryd yr oedd drwg deimladau yn ferw cydrhwng perchennogion a'u chwarelwyr ond nis eginodd yno. Braf i mi heddiw, er i 102 o flynyddoedd ehedeg heibio ers hynny, ydyw datgan llwyddiant y creigwyr rheini. Torrasant trwodd gan ganfod y "Faen" ar ddydd Sadwrn 12ed Ebrill 1873. Llawenychwyd y nos honno yng nghartrefleoedd y chwarelwyr yn ogystal a thafarnau, gan y rhai a ddiotent; tra y plygodd y saint eu glin mewn dwys weddi o fawl ac o ddiolchgarwch am gymorth ei law Ef ai arweiniad yng wyneb anhawsterau cudd, "Esgynnodd aml ochenaid tra yn diolch trwy bader ger erchwyn gwely. Yn unol a'i adduned, gwnaethpwyd trefniadau gan weithredydd y Barwnig i ddathlu y llwyddiant ar y Sadwrn canlynol, sef y 19, Ebrill 1873. Ymddanghosodd pabell enfawr ("marquee") ar Iard yr Orsaf y pentref. Dygwyd yno y "byrddau billiard" mawrion

a luniwyd gan grefftwyr yn y Chwarel. Ffurfiwyd byrddau ohonynt gyda dau bwrpas mewn golwg. Cynhalient y lluniaeth, ac hefyd gwelwyd cyfle er arddangos crefftwaith a harddwch y lechfaen yn ei glesni naturiol. Ymestynwyd gwahoddiad swyddogol i foneddwyr bro, ac hefyd offeiriad plwyf a meddyg o Gemmaes. Croeshawyd hefyd berchenogion ac arolygwyr chwareli eraill, ac hefyd Fasnachwyr llechfaen profiadol a gwybodus o'r grefft, y rhai heb os nac onibai a dderbyniasant wledd llygad o'r grefft a'r defnydd, yn ychwanegol i'r wledd a lluniaeth corfforol.

Bu annerchiadau, llongyfarchiadau, ac hefyd ddymuniadau da am ei dyfodol. Bu yfed i iechyd da y Barwnig, ei Briod, ac nid llai pwysig, ei Etifedd. Drachtiwyd o'r gwydrau er parch i'r Gadair ac yna i'r Cadeirydd Mr. W. Williams, yr hwn yn ei annerchiad a awgrymodd fod ysbryd anturiaethus Syr Edmund yn edmygol. Gwariodd yn helaeth o'i gyfoeth yn Chwarel Minllyn yn ogystal ac yn Hendreddu, ac yn wir yr oedd rhagor o welliantau ar eu trothwy. Sicrhawyd gwasanaeth adeiladydd dibynnol er adeiladu rhes o dai ar bwys y chwarel, ymha le yr ymgartrefai chwarelwyr. Ymgymerwyd hefyd a chychwyniad gosod y dramrod (lein fach) o'r chwarel i orsaf y pentref (taith 3m 70c) er hwylustod cludo y farsiandaeth i gyrraedd Rheilffordd y Mawddwy. Yfwyd i'r Offeiriad J. J. Brown, ac hefyd i'r meddyg Dr. Griffiths o Gemmaes. Ac yna! Yn olaf oll yfwyd er dymuno iechyd da i'r Rheolwr y Chwarel a'i weithwyr ffyddlon (heb grybwyll un gair am y llwch llygredig a niweidiodd eu ysgyfaint o bosib tra yn twnelu am y wythien a ddylasai ddwyn cyfoeth i'r coffrau yn y dyfodol). Bu Ed. Davies yn gyndwn i gyflwyno anerchiad tros ei ddynion oherwydd na theimlai rugl rwydd yn yr iaith Seisnig. Boddlonodd i ddweud gair byr yn ei Gymraeg, a chafodd dderbyniad da iawn. Gwasanaethwyd gan yr unawdydd enwog W. Francis o'r Drefnewydd yr hwn a blesiodd bawb. Rhwygid yr awyr gan ffrwydriadau ar ddyfod pob trên, canys derbyniwyd cennad i osod "fog signals" (detonators) îs yr olwynion, er bywiogi y reolti fawr. Megis popeth da, terfynwyd yr wyl a ddarparwyd, a dychwelwyd am adref yn hapus a boddlon er gwaethaf y lludded a'r llawnder. Gofidus a siomedig fu deall mewn cyfnod byr o dâir mlynedd fod y Barwnig yn fethdalwr. Bu tynged y Chwarel yn y fantol pryd y rhoddwyd hi tan forthwyl arwerthwr mewn arwerthiant a gynhaliwyd ar Orsaf Dinas Mawddwy ar 17 Hydref 1876. Prynwyd gan y brodyr Dennis a Jacob Bradwell, masnachwyr silc o Congleton, yn Sir Gaer. Bu gweithio diwyd a chaled yno eto. Efallai y daw cyfle i gael brys olwg ar y cyfnod hwnnw o fewn y dyfodol agos, canys y mae y defnydd mewn llaw eisioes ac wedi ei ddarparu.